

30 Hydref 2017

Gwaith Ymchwil i Ddyheadau Entrepreneuriaid Ifanc – Yr Adroddiad Terfynol



Syniadau Mawr Cymru
Big Ideas Wales

SyniadauMawr.cymru
BigIdeas.wales

Busnes | Business
Cymru | Wales



30 Hydref 2017

Gwaith Ymchwil i Ddyheadau Entrepreneuriaid Ifanc – Yr Adroddiad Terfynol

Rhif y Contract YE02/2016/2017



beaufortresearch

Yr adroddiad terfynol ar gyfer
Llywodraeth Cymru

Awdur: Nia Bryer

Dilysu Ansawdd: Chris Timmins a
Heledd Bebb

Browerdd, Heol yr Ysgol,
Llanarthne, Sir Gâr
01558 822 922
nia@ob3research.co.uk

38 Llewelyn Goch
Sain Ffagan, Caerdydd
CF5 6HR 029 2221 9226
heledd@ob3research.co.uk

Crynodeb Gweithredol	4
1. Cyflwyniad	11
2. Methodoleg y Gwaith Ymchwil	12
3. Canfyddiadau'r Arolwg Meintiol	14
3.1 Proffil y Sampl a Arolygwyd	14
3.2 Proffil Sampl yr Astudiaethau Achos	16
3.3 Y siwrnai i gychwyn busnes	16
3.4 Hyd y broses o gychwyn busnes	17
3.5 Canfyddiadau am beth y maent yn ei wneud	18
3.6 Sbardunau	19
3.7 Agweddau a Dyheadau	21
3.8 Proffil y Busnesau	25
3.9 Pryderon am gychwyn busnes	27
3.10 Cyllid Busnes	30
3.11 Cyrchu cymorth	30
3.12 Dylanwadau ac ymateb pobl eraill	32
3.13 Effaith cefndiroedd gwledig a threfol	33
3.14 Wrth edrych nôl	34
3.15 Y dyfodol	35
4. Segmentau'r Farchnad	36
4.1 Cyflwyniad	36
4.2 Chwilotwyr Rhyddid	37
4.3 Y rhai 'Ar dân amdani'	43
4.4 Anturwyr Chwilfrydig	47
4.5 Arloeswyr Cymdeithasol	52
4.6 Mentrwyr Lleol	55
Atodiad A Holiadur yr Arolwg Ffôn	59
Atodiad B Canllawiau Trafod Cyfweiliadau'r Astudiaethau Achos Ansoddol	69
Atodiad C Datganiad o'r Dull	71

Crynodeb Gweithredol

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Ymchwil OB3 a Beaufort Research i glustnodi a deall y sbardunau a'r rhwystrau sy'n dylanwadu ar entrepreneuriaid ifanc sy'n ystyried sefydlu busnes, neu sydd wedi cychwyn busnes, gyda'r amcan o gynhyrchu adroddiad segmentu clir i herio a bwydo'r ffordd y darperir gwasanaethau.

Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r gwaith ymchwil yn cynnwys cyflawni arolwg ffôn gyda 153 o entrepreneuriaid ifanc, a chyfweliadau ansoddol dilynol gyda sampl o 15 o'r ymatebwyr.


Datgelodd canfyddiadau allweddol yr arolwg meintiol:

- Yn nhermau rhyw, roedd 68 y cant o'r rhai a arolygwyd yn wrywaidd a 32 y cant yn fenywaidd
- Yn nhermau oedran, roedd 22 y cant rhwng 16 a 21 oed, 33 y cant rhwng 22 a 24 oed, a 45 y cant rhwng 25 a 30 oed
- Roedd mwyafrif mawr o'r rhai a gyfrannodd at yr arolwg (88 y cant) eisoes wedi cychwyn busnes, a dros hanner (53 y cant) wedi gwneud hynny o fewn y flwyddyn ddiwethaf
- Ar gyfartaledd, roedd yr ymatebwyr a arolygwyd wedi treulio ychydig dros 15 mis yn pontio i hunangyflogaeth, ac o'r amser hynny, roeddent wedi treulio chwe mis yn cynllunio'n ymarferol ar gyfer cychwyn eu busnes
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn gweld beth roedden nhw'n ei wneud fel 'rhedeg busnes' (76 y cant) yn ogystal â bod yn 'hunangyflogedig' (48 y cant) ac roeddent wedi cael eu sbarduno i gychwyn busnes 'i fod yn fos arnyn nhw eu hunain' (51 y cant) ac 'i gael mwy o ryddid' (29 y cant)
- Roedd y ddau reswm mwyaf cyffredin am fynd ar drywydd hunangyflogaeth yn ymwneud â gweld cyfle busnes da (93 y cant) a'r awydd i fod yn fos arnyn nhw eu hunain (92 y cant)
- Y pryder mwyaf cyffredin am gychwyn busnes oedd cyllid (boed hynny o ran ennill incwm o fasnachu, y soniodd 27 y cant o'r bobl a arolygwyd amdano; neu wneud colled ariannol, y soniodd 24 y cant amdano) a'r rhwystr mwyaf i gychwyn busnes oedd diffyg cyllid personol i'w fuddsoddi yn y busnes, a soniodd 18 y cant am hyn
- Roedd tri chwarter (75 y cant) o'r bobl a arolygwyd yn teimlo eu bod wedi ymbaratoi'n dda i gychwyn busnes, er bod faint o brofiad gwaith perthnasol yr oeddent wedi ei gael cyn cychwyn yn amrywio
- Roedd yr ymatebwyr a arolygwyd wedi cyrchu cymorth neu gyngor gan amrywiaeth gweddol eang o ffynonellau posibl, ac enwyd cynghorwyr busnes (41 y cant), perthnasau (27 y cant) a

ffrindiau neu gydweithwyr (22 y cant) amlaf yn hynny o beth, er nad oedd un ym mhob pump (19 y cant) wedi cael cymorth gan neb arall

- Roedd y mwyafrif helaeth o'r bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu bod hunangyflogaeth yn cynnig cyfle iddynt gael teimlad o foddhad (98 y cant), i ddefnyddio'u dawn a'u creadigrwydd (94 y cant) a chael gwir ymdeimlad o bwrpas (93 y cant). Roedd y safbwynt o ran i ba raddau roedd hyn yn darparu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith yn fwy cymysg (gyda 57 y cant yn cytuno). Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr i'r arolwg (ar gyfradd o 92 y cant) yn teimlo bod rhedeg eu busnes eu hunain yn rhoi mwy o foddhad iddynt na gweithio dros rywun arall
- Roedd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn masnachu (80 y cant) yn ystyried taw eu busnes oedd eu prif ffynhonnell incwm
- Er bod 52 y cant o'r rhai a arolygwyd yn unig fasnachwyr nad oedd yn cyflogi neb, roedd y sampl a arolygwyd yn uchelgeisiol eu gorwelion gyda mwy na dau o bob tri (69 y cant) yn awyddus i dyfu eu busnes cymaint â phosibl a chyflogi gweithwyr ychwanegol, ac 13 y cant pellach am dyfu'r busnes ond heb gyflogi gweithwyr.

Cynhyrchodd dadansoddiad ffactor a chlwstwr a gyflawnwyd gan ddefnyddio canfyddiadau'r arolwg bum segment allweddol yn y farchnad, fel a nodir isod:



Diffinnir prif nodweddion y pum segment yma o'r farchnad isod:

Chwilotwyr Rhyddid: denu gan fod yn fos ar eu hunain a'r rhyddid sy'n dod yn sgil hynny, ond am wneud bywoliaeth gyffyrddus.

Proffil:

- 39 y cant o'r rhai a arolygwyd
- mae 31 y cant yn fenywod a 69 y cant yn ddynion
- mae 14 y cant yn 21 oed neu'n iau, 36 y cant yn 22 i 24 oed a 51 y cant yn 25 i 30 oed
- 76 y cant yn gweld eu hunain fel rhai sy'n 'rhedeg busnes' a 54 y cant yn gweld eu hunain yn 'hunangyflogedig'
- mae 40 y cant yn unig fasnachwyr
- mae 81 y cant yn ystyried taw eu busnes yw eu prif ffynhonnell incwm
- mae 26 y cant yn gwasanaethu eu tref/cymuned uniongyrchol a 37 y cant yn gwasanaethu ardal awdurdod lleol/rhanbarth
- mae 65 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes a chyflogi gweithwyr (neu ragor o weithwyr) ac 19 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes ond heb gyflogi gweithwyr

Yn fwy tebygol o:

- fod yn masnachu'n weithredol, ar gyfradd o 85 y cant
- bod â chanfyddiad bod diffyg cyflogaeth addas ar gael, ar gyfradd o 54 y cant
- bod mewn swydd gyflogedig lawn-amser cyn cychwyn, ar lefel o 60 y cant
- bod yn cyflogi pobl eraill, ar gyfradd o 60 y cant
- eu hystyried eu hunain yn grefftwyr, ar gyfradd o 16 y cant, ac isgcontractwyr, ar gyfradd o 13 y cant
- poeni am ennill cyflog, ar gyfradd o 34 y cant, a gwneud colled ariannol, ar gyfradd o 29 y cant
- cael eu sbarduno gan yr awydd i wneud bywoliaeth gyffyrddus, ar gyfradd o 70 y cant
- cael eu denu at fod yn fos ar eu hunain, ar gyfradd o 51 y cant, ac at y rhyddid y mae hynny'n ei gynnig, 31 y cant
- yn meddwl y gallent fod wedi cychwyn eu busnes yn gynt, ar gyfradd o 29 y cant

Yn llai tebygol o:

- bod yn gweithio mewn ardal wledig, ar gyfradd o 19 y cant
- bod yn rhedeg busnesau sy'n masnachu'n rhyngwladol, ar gyfradd o 6 y cant
- bod wedi cael cymorth gan rywun arall, ar gyfradd o 22 y cant
- bod yn meddwl bod addysg wedi dylanwadu ar eu hagwedd at fusnes, 42 y cant
- bod yn fodlon ar eu bywyd gwaith, ar gyfradd o 87 y cant, neu o ystyried bod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, 49 y cant

Yr 'Ar dân amdani': entrepreneuriaid hyderus ac uchelgeisiol sy'n cael eu gyrru gan ddymuniad i wneud arian, ond a allai fod wedi ymbaratoi'n well ar gyfer rhedeg busnes.

Proffil:

- 27 y cant o'r rhai a arolygwyd
- mae 39 y cant yn fenywod a 61 y cant yn ddynion
- mae 24 y cant yn 21 oed neu'n iau, 24 y cant yn 22 i 24 oed, a 51 y cant rhwng 25 a 30 oed
- mae 78 y cant yn gweld eu hunain fel rhywun sy'n 'rhedeg busnes' a 43 y cant yn gweld eu hunain fel 'hunangyflogedig'
- mae 51 y cant yn unig fasnachwyr
- mae 81 y cant yn ystyried taw eu busnes yw eu prif ffynhonnell incwm
- mae 20 y cant yn gwasanaethu eu tref/cymuned uniongyrchol a 26 y cant yn gwasanaethu ardal awdurdod lleol/rhanbarth, tra bod 23 y cant yn gwasanaethu marchnadoedd rhyngwladol
- mae 80 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes a chyflogi gweithwyr (neu ragor o weithwyr), ac mae 13 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes, ond heb gyflogi gweithwyr

Yn fwy tebygol o:

- eu hystyried eu hunain yn entrepreneuriaid, ar lefel o 76 y cant
- fod yn gweithredu busnes sy'n gwasanaethu marchnadoedd ehangach
- cael eu gyrru gan yr amcan o wneud arian
- bod yn fenywod, ar gyfradd o 39 y cant
- bod rhwng 25 a 30 oed, ar gyfradd o 51 y cant
- bod wedi mynychu'r coleg (11 y cant) neu'r brifysgol (24 y cant) cyn cychwyn busnes
- bod yn rhedeg gweithrediadau mwy hirsefydlog sy'n gwasanaethu marchnadoedd ehangach - roedd 58 y cant wedi bod yn rhedeg busnes ers dros flwyddyn
- ystyried bod y prif rwystr oedd yn eu hatal rhag cychwyn busnes yn ymwneud â chyllid, 22 y cant
- ymrwymo oriau hir iawn at eu busnes
- teimlo eu bod wedi eu gorlwytho â gwaith a dan straen (ar gyfradd o 59 y cant) a'u bod ar eu pennau eu hunain (32 y cant)
- defnyddio eu dawn a'u creadigrwydd (100 y cant) a theimlo'n fwy bodlon ar eu bywydau gwaith (98 y cant)
- bod yn fwyaf uchelgeisiol yn nhermau twf a chyflogi staff

Yn llai tebygol o:

- bod â phryderon am gychwyn busnes: nid oedd unrhyw bryderon gan 24 y cant am gychwyn busnes
- bod â rhieni cefnogol sy'n barod i helpu, ar gyfradd o 85 y cant
- bod wedi paratoi ar gyfer dechrau busnes, ar gyfradd o 68 y cant

Anturwyr Chwilfrydig: unigolion sy'n 'dablo' mewn busnes oherwydd y rhyddid y mae'n ei gynnig a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig i fod yn greadigol, a hynny'n aml yn eu hamser rhydd, heb fod yn ddibynnol ar yr incwm y mae'n ei greu.

Proffil:

- 17 y cant o'r bobl a arolygwyd
- mae 19 y cant yn fenywod ac 81 y cant yn ddynion
- mae 38 y cant o dan 21 oed, 38 y cant rhwng 22 a 24 oed, a 23 y cant rhwng 25 a 30 oed
- mae 58 y cant yn gweld eu hunain fel rhai sy'n 'rhedeg busnes'; a 31 y cant yn gweld eu hunain fel rhywun sy'n 'gwneud arian o hobi'
- mae 80 y cant yn unig fasnachwyr
- mae 73 y cant yn ystyried taw'r busnes yw eu prif ffynhonnell incwm
- mae 23 y cant yn gwasanaethu eu tref/cymuned uniongyrchol a 23 y cant yn gwasanaethu marchnadoedd rhyngwladol
- mae 58 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes a chyflogi gweithwyr (neu ragor o weithwyr), tra bod 12 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes ond heb gyflogi gweithwyr

Yn fwy tebygol o:

- fod yn ddynion, ar lefel o 81 y cant
- bod o'r carfanau iau
- bod yn ystyrwyr (27 y cant) o'u cymharu â'r segmentau eraill
- bod wedi astudio mewn prifysgol cyn cychwyn y busnes, ar gyfradd o 27 y cant
- bod yn gwneud arian o hobi (ar gyfradd o 31 y cant) ac o ymrwymo i'w busnes yn ystod eu hamser hamdden (27 y cant) neu yn ystod wythnos waith fer (38 y cant)
- bod wedi cael eu gyrru at hunangyflogaeth gan y rhyddid (58 y cant) a'r creadigrwydd (100 y cant) y mae'n ei gynnig
- rhoi blaenoriaeth ar wneud bywoliaeth gyffyrddus
- meddwl bod hunangyflogaeth yn arfer gyffredin yn eu sector
- poeni am wneud colled ariannol, ar gyfradd o 31 y cant

Yn llai tebygol o:

- ystyried eu bod yn entrepreneuriaid, ar lefel o 54 y cant
- bod yn cyflogi rhywun arall, ar gyfradd o 20 y cant
- bod wedi cael eu gyrru i hunangyflogaeth gan anawsterau wrth ddod o hyd i waith, ar lefel o 27 y cant
- bod yn ddibynnol ar eu busnes fel ffynhonnell incwm, ar gyfradd o 73 y cant
- bod â rhieni cefnogol, ar gyfradd o 81 y cant
- bod wedi eu gorlethu â gwaith a dan straen (33 y cant) neu'n teimlo'n unig (13 y cant)
- bod yn uchelgeisiol yn nhermau eu gorwelion ar gyfer dyfodol eu busnes
- bod wedi wynebu rhwystrau wrth gychwyn busnes - nid oedd 31 y cant wedi wynebu rhwystrau

Arloeswyr Cymdeithasol: Unigolion uchelgeisiol sy'n cael eu denu at redeg eu busnes eu hunain er mwyn sbarduno newid cymdeithasol a gwneud gwahaniaeth i'w cymuned a'u cleientiaid, a hynny wrth wneud bywoliaeth gyffyrddus.

Proffil:

- 7 y cant o'r bobl a arolygwyd
- mae 44 y cant yn fenywod a 56 y cant yn ddynion
- mae 25 y cant o dan 21 oed, 31 y cant rhwng 22 a 24 oed, a 44 y cant rhwng 25 a 30 oed
- mae 94 y cant yn gweld eu hunain fel rhywun sy'n 'rhedeg busnes' a 56 y cant yn gweld eu hunain fel 'hunangyflogedig'
- mae 46 y cant yn unig fasnachwyr
- mae 77 y cant yn ystyried taw'r busnes yw eu prif ffynhonnell incwm
- mae 25 y cant yn gwasanaethu eu tref/cymuned uniongyrchol, 19 y cant yn gwasanaethu ardal awdurdod lleol a 25 y cant yn gwasanaethu eu rhanbarth. Mae 25 y cant pellach yn gwasanaethu marchnadoedd rhyngwladol
- mae 75 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes a chyflogi gweithwyr (neu ragor o weithwyr), tra bod 6 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes ond heb gyflogi gweithwyr

Yn fwy tebygol o:

- gael eu gyrru gan ddymuniad i weld newid cymdeithasol a gwneud gwahaniaeth, sef 81 y cant
- cael eu gyrru gan yr angen am fynd i'r afael â phroblem gymdeithasol neu gynorthwyo eu cymuned, ar gyfradd o 38 y cant
- bod yn fenywod, ar gyfradd o 44 y cant
- bod yn fwy addysgedig - mae 57 y cant wedi cael eu haddysgu hyd Lefel 5 neu'n uwch
- credu bod hunangyflogaeth yn eu galluogi i fyw lle maen nhw, ar gyfradd o 75 y cant
- poeni am ennill cyflog, ar gyfradd o 31 y cant, a chael cwsmeriaid, ar lefel o 25 y cant
- bod wedi wynebu rhwystrau wrth gychwyn busnes oherwydd diffyg cyllid personol i'w fuddsoddi, ar gyfradd o 31 y cant, sef y rhwystr fwyaf
- bod wedi cyrchu cymorth cynghorydd busnes, ar gyfradd o 50 y cant
- ffeindio cynnal busnes yn straen
- neilltuo oriau hir iawn i'w menter, ar gyfradd o 56 y cant
- teimlo bod diwallu anghenion cwsmeriaid yn bwysig a'u bod yn mwynhau hyn, 46 y cant
- bod yn weddol uchelgeisiol yn nhermau twf eu busnes a chyflogi at y dyfodol

Yn llai tebygol o:

- deimlo taw rhedeg busnes yw'r peth maent wedi bod am ei wneud erioed
- bod wedi cychwyn eu busnes oherwydd anawsterau wrth ddod o hyd i waith arall
- bod wedi bod yn awyddus i fod yn fos ar eu hunain, ar gyfradd o 38 y cant
- poeni am wneud colled ariannol, ar gyfradd o 6 y cant
- bod wedi buddsoddi eu cynilion eu hunain yn y fenter

Mentrwyr Lleol: Unig fasnachwyr hunangyflogedig sydd wedi ymbaratoi'n dda ac sy'n gymedrol o uchelgeisiol sy'n rhedeg busnesau bach lleol, sy'n cael eu gyrru gan yr angen i sicrhau statws cymdeithasol.

Proffil:

- 7 y cant o'r bobl a arolygwyd
- mae 27 y cant yn fenywod a 73 y cant yn ddynion
- mae 18 y cant yn 21 oed neu'n iau, 36 y cant yn 22 i 24 oed, a 45 y cant yn 25 i 30 oed
- mae 82 y cant yn gweld eu hunain fel rhywun sy'n 'rhedeg busnes' a 73 y cant yn gweld eu hunain fel 'hunangyflogedig'
- mae 70 y cant yn unig fasnachwyr
- mae 80 y cant yn ystyried taw'r busnes yw eu prif ffynhonnell incwm
- mae 45 y cant yn gwasanaethu eu tref/cymuned uniongyrchol, 19 y cant yn gwasanaethu ardal eu hawdurdod lleol, 27 y cant yn gwasanaethu eu rhanbarth a 9 y cant yn gwasanaethu marchnadoedd y DU. Nid oes neb ohonynt yn gwasanaethu marchnadoedd rhyngwladol
- mae 64 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes a chyflogi gweithwyr (neu ragor o weithwyr) tra bod 27 y cant yn ystyried cychwyn busnes arall

Yn fwy tebygol o:

- eu gweld eu hunain fel perchnogion busnes hunangyflogedig, ar gyfradd o 73 y cant
- rhedeg busnesau bychain un person (mae 70 y cant yn unig fasnachwyr) sy'n gwasanaethu eu tref neu gymuned uniongyrchol
- bod yn ddynion, ar gyfradd o 73 y cant
- bod wedi bod mewn cyflogaeth amser-llawn, ar gyfradd o 60 y cant
- cyflawni'r daith i hunangyflogaeth yn weddol gyflym
- poeni am gael cwsmeriaid, gwerthu a bod â diffyg cyllid parod
- bod yn fwy parod i redeg busnes yn nhermau profiad blaenorol a'r gwaith ymchwil a wnaed, ar gyfradd o 91 y cant
- ystyried bod hunangyflogaeth yn darparu statws cymdeithasol
- bod wedi bod yn awyddus redeg eu busnes eu hunain erioed, a bod 100 y cant am fod yn fos ar eu hunain
- bod ag uchelgeisiau cymedrol o ran twf, ond heb fod yn groes i ystyried cychwyn busnes arall, gyda 27 y cant yn ystyried cychwyn busnes arall dros yr ychydig flynyddoedd nesaf

Yn llai tebygol o:

- bod yn ifanc iawn, gydag 18 y cant yn 21 oed neu'n iau
- bod mewn lleoliad mewn dinas, neu ar gyrion dinas, ar lefel o 9 y cant
- bod dan straen ac wedi eu gorlethu â gwaith, ar lefel o 20 y cant
- gweld y busnes fel ffordd i ddatblygu eu creadigrwydd a'u talent, ar lefel o 60 y cant
- bod wedi wynebu rhwystrau wrth gychwyn busnes, gyda 45 y cant heb wynebu unrhyw rwystrau

1. Cyflwyniad

Penododd Llywodraeth Cymru Ymchwil OB3 a Beaufort Research i gyflawni gwaith ymchwil i ddyheadau entrepreneuriaid ifanc.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru'r astudiaeth ymchwil yma i glustnodi a deall y sbardunau a'r rhwystrau sy'n dylanwadu ar entrepreneuriaid ifanc sy'n ystyried sefydlu busnes, neu sydd wedi cychwyn busnes, gyda'r nod o gynhyrchu adroddiad segmentu clir i herio a hysbusu'r ffordd y darperir gwasanaethau.

Pwrpas y gwaith ymchwil oedd cael dealltwriaeth o anghenion entrepreneuriaid ifanc er mwyn bwydo datblygiad negeseuon ymgyrchu a chynnwys ar gyfer gweithdai, ac er mwyn ehangu dealltwriaeth partneriaid a hyrwyddwyr entrepreneuriaeth ieuencid, cynorthwyo cynghorwyr cymorth a darparu modelau rôl sy'n gweithredu yn y maes hwn. Yn benodol, nodau'r gwaith ymchwil oedd:

- Deall y bwlch canfyddedig sydd yna rhwng dyheadau uchel ar gyfer entrepreneuriaeth a'r lefelau gwireddu is o ran troi syniadau busnes yn fusnesau
- Deall y pethau sy'n sbarduno, yn rhwystro a'r dylanwadau ar entrepreneuriaid ifanc sy'n cychwyn busnes cyn troi'n 25 oed (er y gallai'r gwaith ymchwil ystyried pobl o dan 30 oed)
- Defnyddio'r wybodaeth hon i segmentu'r farchnad yn glir, gan gynnig dirnadaeth o ran sut i wahaniaethu dulliau a chynnwys yr ymgyrch gyfathrebu
- Defnyddio'r canfyddiadau i herio a hysbysu'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau a'r partneriaid, ac er mwyn sicrhau bod y dulliau o gyflawni'n diwallu anghenion cleientiaid y milflwydd
- Defnyddio'r gwaith ymchwil i sbarduno diddordeb a thrafodaeth ymysg entrepreneuriaid ifanc.

Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cynnig:

- Trosolwg o'r fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd i gyflawni'r gwaith ymchwil (Adran 2)
- Canfyddiadau'r arolwg meintiol gydag entrepreneuriaid ifanc a gyflawnwyd ym Mehefin a Gorffennaf 2017 (Adran 3). Cynhaliwyd cyfweiliadau â chyfanswm o 153 o ymatebwyr (yn erbyn targed o 150)
- Segmentau allweddol y farchnad a gynhyrchwyd trwy ddadansoddi data'r arolwg, gydag esiamplau ategol o astudiaethau achos (Adran 4).

2. Methodoleg y Gwaith Ymchwil

Roedd y dull a ddefnyddiwyd i gyflawni'r gwaith ymchwil i ddyheadau entrepreneuriaid ifanc yn cynnwys:

- Cyfnod cychwynnol a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda'r cleient a pharatoi adroddiad cyflwyno i fanylu ar y rhaglen waith
- Cyrchu cronfeydd data Llywodraeth Cymru o bobl ifanc sy'n cael cymorth trwy'r amrywiol raglenni cymorth busnes ac entrepreneuriaeth ieuencid
- Cyrchu data cyswllt ar gyfer carfan o entrepreneuriaid ifanc 'nad ydynt yn cael cymorth Llywodraeth Cymru' gan ddefnyddio dull cymysg. Roedd hyn yn cynnwys caffael cronfeydd data gan ddarparwyr masnachol (Experian a Market Location); datblygu a chynnal tudalen gwe ddwyieithog i recriwtio ar gyfer yr arolwg, a hybu'r ddolen ar y we trwy'r cyfryngau cymdeithasol; mynd at amrywiaeth o sefydliadau partner i ofyn am eu cymorth i hybu'r arolwg recriwtio ar y we, a gosod cwestiwn ar Arolwg Omnibws Beaufort ym Mawrth 2017 er mwyn dod o hyd i ddarpar ymatebwyr i'r arolwg
- Dileu unrhyw gysylltiadau dwbl o'r ffynonellau hyn, a llunio strategaeth samplu er mwyn caniatáu ar gyfer amrywiadau allweddol (â chymorth/heb gymorth Llywodraeth Cymru; wedi cychwyn busnes/yn ystyried cychwyn busnes; a'r sector busnes er mwyn sicrhau bod y sampl a fyddai'n cael cyfweiliadau'n cynnig croestoriad o safbwyntiau)
- Paratoi holiadur ar gyfer arolwg i'w ddefnyddio fel arolwg ffôn (sydd i'w weld yn Atodiad A) a chanllawiau ar gyfer trafodaeth ansoddol i'w defnyddio yn ystod y cyfweiliadau wyneb yn wyneb ansoddol dilynol (sydd i'w gweld yn Atodiad B).
- Arbrofi a chyflawni cyfanswm o 153 o gyfweiliadau ag entrepreneuriaid ifanc. Mae datganiad o'r dull a ddefnyddiwyd, sy'n amlinellu'r cysylltiadau a holwyd a'r cyfraddau ymateb yn Atodiad C
- Paratoi tablau data'r arolygon gan ddefnyddio nifer fechan o gwestiynau allweddol, a chyflawni dadansoddiad fesul ffactor a chlwestwr er mwyn cynhyrchu pum segment o'r farchnad, a bennir yn Adran 4 o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, hoffem bwysleisio, er nad yw maint cymharol fach y sampl cyffredinol (153) yn annilysu'r dechneg hon, o ran bod modd datgelu agweddau gwahanol o hyd, mae hyn yn golygu bod y segmentau canlyniadol yn fach. Am hynny, mae angen gofal wrth ystyried y wybodaeth broffilio am y segmentau lleiaf o'r farchnad a gynigir
- Cyflawni cyfweiliadau ansoddol dilynol â sampl o 15 o ymatebwyr a oedd wedi cytuno i chwarae rhan bellach yn y gwaith ymchwil, ac ymgorffori'r dystiolaeth i'r adroddiad hwn fel astudiaethau achos dienw sy'n nodweddu pob grŵp targed o segmentau'r farchnad

- Paratoi'r adroddiad terfynol hwn, a chyflwyno'r canfyddiadau i swyddogion Llywodraeth Cymru ac i aelodau Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth Cymru¹.

¹ Rhwydwaith o ymarferwyr sy'n rhoi cymorth i entrepreneuriaid yw Cyfnewidfa Entrepreneuriaeth Cymru. Mae'n cynnig cyfleoedd i rannu arferion da ac i ddatblygu eu dealltwriaeth am y maes pwnc.

3. Canfyddiadau'r Arolwg Meintiol

Yn gyntaf yn y bennod hon, pennir proffil y sampl a arolygwyd (Adran 3.1) a sampl yr astudiaeth achos (Adran 3.2). Mae'n mynd ymlaen wedyn i ystyried canfyddiadau'r sampl a arolygwyd, gan gynnwys eu taith a'u profiadau wrth gychwyn busnes, eu hagweddau a'u dyheadau o ran eu busnes, proffil y busnesau y maent yn eu rhedeg a'r cymorth y maent wedi ei gyrchu wrth gychwyn a sefydlu eu gweithrediadau. Mae'r bennod yn mynd ymlaen wedyn i ystyried eu huchelgeisiau a'u dyheadau ar gyfer dyfodol eu busnesau.

3.1 Proffil y Sampl a Arolygwyd

O'r 153 o ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg, roedd mwyafrif helaeth (88 y cant neu 135 o ymatebwyr) eisoes wedi cychwyn busnes, ac roedd y lleiafrif (12 y cant neu 18 o ymatebwyr) yn ystyried gwneud hynny. Adeg cyflawni'r arolwg, roedd 80 y cant o'r holl bobl a arolygwyd (122 o ymatebwyr) yn masnachu.

Yn nhermau ffynonellau'r gronfa ddata, roedd ychydig bach yn llai na hanner (48 y cant neu 74 o ymatebwyr) yn gysylltiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer unigolion a oedd wedi ymgysylltu ag amryw o fentrau Llywodraeth Cymru, ac roedd yr hanner arall (52 y cant neu 79 y cant o'r ymatebwyr) yn gysylltiadau a ddaeth i law trwy ffynonellau heblaw Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dau ddarparwydd masnachol - Experian a Market Location. Pennir ffynonellau'r data yn Nhabl 3.1 isod:

Tabl 3.1: Ffynonellau'r gronfa ddata o ymatebwyr a arolygwyd

Ffynonellau'r gronfa ddata	Nifer yr ymatebwyr i'r arolwg	% yr ymatebwyr i'r arolwg
Bwrsariaeth Graddedigion LIC	1	1%
Cychwyn Busnes LIC	2	1%
Twf Swyddi Cymru LIC	4	3%
Gwersyll Hybu a Her LIC	24	15%
Syniadau Mawr Cymru/Busnes Cymru LIC	43	28%
Experian	36	24%
Market Location	39	25%
Arolwg Cofrestru OB3	4	3%
Cyfanswm	153	100%

Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153)

Yn nhermau proffil demograffaid y rhai a arolygwyd, roedd dau draean (68 y cant neu 104 o'r ymatebwyr) yn ddynion, a thraean (32 y cant neu 49 o ymatebwyr) yn fenywod. Roedd cyfran ychydig

bach yn uwch o'r ymatebwyr a gyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru (35 y cant neu 26 o 74 o ymatebwyr) nac ymatebwyr na chyrcwyd trwy Lywodraeth Cymru (29 y cant neu 23 o 79 o ymatebwyr) yn fenywaidd.

Roedd y mwyafrif o'r bobl a arolygwyd (89 y cant neu 136 o ymatebwyr) o'r grŵp ethnig gwyn Prydeinig, tri y cant (pump o ymatebwr) o grŵp ethnig gwyn arall, tri y cant (pump o ymatebwr) o ethnigrwydd Du/Caribiaidd neu Brydeinig Affricanaidd, ac roedd y saith ymatebwr arall o saith cefndir ethnig gwahanol.

Nid oedd gan y mwyafrif helaeth (92 y cant neu 141 o ymatebwyr) broblemau iechyd neu anableddau a oedd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau pob dydd, ond roedd gan 9 y cant broblem iechyd neu anabledd a oedd naill ai'n cyfyngu ychydig bach arnynt (7 y cant neu 10 ymatebwr) neu'n cyfyngu'n fawr arnynt (1 y cant neu ddau ymatebwr).

Roedd ychydig yn llai na hanner y bobl a arolygwyd (45 y cant neu 69 o ymatebwyr) yn 25-30 oed, traean (33 y cant neu 50 ymatebwr) yn 22-24 oed, ac roedd yr un o bob pump sy'n weddill (22 y cant neu 34 o ymatebwyr) yn 16-21 oed.

Yn nhermau cwmpas daearyddol, roedd ychydig dros hanner (52 y cant neu 80 o ymatebwyr) yn rhanbarth y de-ddwyrain. Roedd chwarter pellach (27 y cant neu 41 o ymatebwyr) yn y rhanbarth y canolbarth a'r de-orllewin, ac 16 y cant (25 ymatebwr) yn y gogledd.

Roedd yna raniad gweddol gyfartal ym mhroffil y rhai a arolygwyd yn nhermau'r math o ardal lle roedden nhw'n gweithio. Roedd traean (35 y cant neu 53 o ymatebwyr) yn gweithio mewn neu ar gyrion dinas, traean pellach (37 y cant neu 57 o ymatebwyr) yn gweithio mewn neu ar gyrion tref fawr, a chwarter (26 y cant neu 39 o ymatebwyr) yn gweithio naill ai mewn ardal wledig weddol anghysbell neu anghysbell iawn.

Yn nhermau'r cymhwyster uchaf a gyflawnwyd, roedd gan lai nag un o bob pump (17 y cant neu 26 o ymatebwyr) gymhwyster Lefel 2 neu'n is, roedd gan draean (32 y cant neu 49 o ymatebwyr) gymhwyster Lefel 3 neu 4, roedd gan draean pellach (35 y cant neu 53 o ymatebwyr) gymhwyster Lefel 5 neu 6, ac roedd gan un o bob deg (10 y cant neu 16 o ymatebwyr gymhwyster Lefel 7). Roedd yr holl rai â chymhwyster Lefel 7 rhwng 25 a 30 oed.

3.2 Proffil Sampl yr Astudiaethau Achos

O'r 15 unigolyn a gafodd gyfweiliad ar ffurf arolwg dilynol, roedd pawb ond un eisoes wedi cychwyn busnes, ac roedd un yn ystyried gwneud hynny. Cyrchwyd naw trwy ffynonellau data Llywodraeth Cymru, ac roedd chwech o ffynonellau eraill nad ydynt yn ymwneud â Llywodraeth Cymru.

Yn nhermau demograffeg a phroffil, roedd dau yn 16-21 oed, pump yn 22-24 oed a'r wyth arall yn 25-30 oed. Roedd yr astudiaeth achos yn cynnwys cyfran uwch o fenywod na'r sampl a arolygwyd - roedd wyth yn ddynion a saith yn fenywod. Yn nhermau anabledd, roedd gan dri o'r 15 anabledd neu broblem iechyd a oedd yn cyfyngu i ryw raddau ar eu gweithgareddau pob dydd. Nododd pob un o'r 15 eu hethnigrwydd fel grŵp ethnig gwyn Prydeinig. Yn nhermau eu cymwysterau, roedd sampl yr astudiaeth achos ychydig bach yn fwy cymwys na sampl cyffredinol yr arolwg, gyda phump wedi cael cymhwyster Lefel 7 a phump pellach wedi cael cymhwyster Lefel 5 neu 6.

Yn nhermau lleoliad daearyddol, roedd pedwar yn y gogledd, pedwar yn y canolbarth a'r de-orllewin, a saith yn y de-ddwyrain. Yn nhermau'r math o ardal lle'r oedden nhw'n gweithio, roedd chwech yn gweithio mewn neu ar gyrion dinas, pump yn gweithio mewn neu ar gyrion tref fawr ac roedd y pedwar sy'n weddill oll yn gweithio mewn ardaloedd cymharol wledig.

Roedd naw o'r ymatebwyr i'r astudiaethau achos a oedd yn masnachu'n cyflogi staff, ond nid oedd pump yn cyflogi neb arall, heblaw nhw eu hunain.

3.3 Y siwrnai i gychwyn busnes

O'r 135 o ymatebwyr a arolygwyd a oedd eisoes wedi cychwyn busnes, roedd ychydig dros hanner (53 y cant neu 71 o ymatebwyr) wedi cychwyn o fewn y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd 43 y cant (58 o ymatebwyr) yn rhedeg busnes a oedd wedi ei sefydlu ers dros flwyddyn. Nid oedd nifer fechan (4 y cant neu chwech ymatebwr) yn rhedeg busnes mwyach, ond roeddent wedi gwneud hynny yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd yr ymatebwyr a gyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru'n fwy tebygol o fod wedi cychwyn busnes o fewn y flwyddyn ddiwethaf (38 o 59 ymatebwr, neu 64 y cant) ac roedd hynny'n wir am y carfanau iau hefyd.

O'r 18 o ymatebwyr nad oeddent wedi cychwyn busnes eto, roedd dros dri chwarter (78 y cant neu 14 o ymatebwyr) wedi gwneud rhywfaint o waith ymchwil a chynllunio cychwynnol, roedd hanner (56 y cant neu deg ymatebwr) wrthi'n cynllunio ar gyfer cychwyn busnes ac roedd traean (33 y cant neu chwech o ymatebwyr) wrthi'n profi eu syniad busnes.


O'r rhai a oedd wedi cychwyn busnes o fewn y tair blynedd diwethaf, roedd llai na chwarter y rhai a arolygwyd (24 y cant neu 32 o 135 o ymatebwyr) yn credu y byddai wedi bod yn bosibl iddynt fod wedi lleihau faint o amser a gymerodd iddynt gychwyn eu busnes, tra bod un o bob deg pellach (10 y cant neu 13 o ymatebwyr) yn credu y gallai hynny fod wedi bod yn bosibilrwydd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu y byddent wedi gallu cychwyn busnes yn gynt pe na bai angen iddynt fod wedi aros am bobl eraill, pe baent wedi gallu cyrchu'r cyllid yn gynt, neu pe baent wedi gallu cyrchu mwy o gymorth yn gyffredinol. Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn tueddu i sôn y byddent wedi gwerthfawrogi cymorth gan gynghorydd/mentor busnes, neu gymorth ariannol er mwyn cychwyn dros gyfnod byrrach o amser.

3.4 Hyd y broses o gychwyn busnes

Ar gyfartaledd, roedd yr ymatebwyr a arolygwyd wedi treulio (neu'n disgwyl treulio) ychydig dros 15 mis ar y cyfan yn pontio i hunangyflogaeth o'r pwynt cyntaf un ar ôl ystyried y syniad o gychwyn busnes, ac ar gyfartaledd, roedd yr ymatebwyr a arolygwyd wedi treulio rhyw chwe mis yn cynllunio cychwyn eu busnes yn ymarferol. Mae data'r arolwg yn awgrymu bod dynion yn cymryd mwy o amser ar y cyfan (ychydig yn llai na 17 mis ar gyfartaledd) yn pontio i hunangyflogaeth, ond maent yn dueddol o dreulio llai o amser (ychydig dros bum mis ar gyfartaledd) yn cynllunio'r broses ar gyfer cychwyn eu busnes yn ymarferol.

Mae Ffigur 3.1 yn dangos yr amrywiad o ran hyd yr amser y cymerodd yr ymatebwyr a arolygwyd i gychwyn eu busnes, yn ôl grŵp oedran. Diddorol yw nodi bod y bobl 25 i 30 oed yn treulio'r cyfnod hwyaf yn pontio, ond y cyfnod lleiaf yn cynllunio'n ymarferol ac yn cychwyn eu busnes mewn gwirionedd. Tra bod y garfan iau, sef y rhai rhwng 16 a 21 oed, yn treulio rhyw 15 mis ar gyfartaledd yn pontio, mae'n werth nodi bod rhyw chwarter o'r garfan hon yn treulio cwta fis rhwng ystyried a chychwyn eu busnes.

Ffigur 3.1: Yr amser a dreuliwyd yn pontio i hunangyflogaeth (misoedd)




Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr)

3.5 Canfyddiadau am beth y maent yn ei wneud

Fel y mae Ffigur 3.2 yn ei nodi, o'r rhai sy'n rhedeg busnes ar hyn o bryd, neu a oedd wedi ystyried cychwyn busnes yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd tri chwarter (76 y cant neu 111 o ymatebwyr) yn ystyried eu bod yn 'rhedeg busnes' tra bod ychydig yn llai na hanner (48 y cant neu 71 o ymatebwyr) yn ystyried eu 'bod yn hunangyflogedig'. Nid oedd disgrifiadau eraill, fel gwneud gwaith llawrydd neu weithio drostynt eu hunain, yr un mor gyffredin. Roedd y garfan iau (16-21 oed) yn llai tebygol o'u hystyried eu hunain i fod yn 'rhedeg busnes' ac yn fwy tebygol o fod mewn addysg neu o fod yn gweithio rhan-amser hefyd. Ychydig iawn o wahaniaethau o ran canfyddiadau y sylwyd arnynt o ran ryw yn hyn o beth, er bod dynion yn fwy tebygol na menywod o'u hystyried eu hunain i fod yn 'gwneud gwaith is-gontractio' (deg y cant o ddynion o gymharu ag wyth y cant o fenywod). Roedd yr ymatebwyr a gyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru'n fwy tebygol na'r lleill o fod yn gwneud arian o hobi, o fod yn gwneud gwaith llawrydd neu o fod â chanfyddiad ohonynt eu hunain fel crefftwr.

Ffigur 3.2: Sut y mae'r ymatebwyr a arolygwyd yn gweld beth maen nhw yn ei wneud/am ei wneud




Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=147) Cyfran yr ymatebwyr sy'n rhedeg busnes ar hyn o bryd neu sydd wedi ystyried cychwyn busnes yn ystod y 12 mis diwethaf

3.6 Sbardunau

Nododd ychydig dros hanner y sampl a arolygwyd (51 y cant neu 78 o ymatebwyr) eu bod wedi bod am gychwyn eu busnes eu hunain er mwyn bod yn fos arnyh nhw eu hunain, ac roedd y rhain yn fwy tebygol o fod yn ymatebwyr o ffynonellau Llywodraeth Cymru, yn fenywod a rhwng 22 a 24 oed. Yn ail yn y rhestr o sbardunau roedd y dymuniad i fod â mwy o ryddid (a nodwyd gan 29 y cant neu 45 o ymatebwyr) wedyn bod am daro gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Llai na 10 y cant o'r rhai a arolygwyd a glustnododd y ffactorau sbardun eraill fel y mae Ffigur 3.3 yn ei ddangos.


Ffigur 3.3: Sbardunau'r ymatebwyr a arolygwyd dros gychwyn eu busnes eu hunain



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr) Cwestiwn heb brocio

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a arolygwyd glustnodi un datganiad oedd yn disgrifio orau eu penderfyniad i gychwyn busnes. Mae Ffigur 3.4 yn dangos y canfyddiadau hyn, ac maent yn awgrymu bod gan y sampl a arolygwyd amrywiaeth eang iawn o safbwyntiau mewn perthynas â'r cwestiwn yma, er ar y cyfan, y datganiad a ddewiswyd amlaf oedd 'Rwyf erioed wedi gwybod mai dyna oeddwn i am ei wneud'.

Ffigur 3.4: Sut y disgrifiodd yr ymatebwyr a arolygwyd eu penderfyniad i gychwyn busnes




Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr)

Roedd ychydig yn llai na dau draean o'r sampl a arolygwyd (59% neu 90 o ymatebwyr) yn teimlo eu bod wedi cychwyn eu busnes eu hunain mewn ffordd oportiwnistaidd, tra bod cwta 13 y cant (20 o ymatebwyr) yn teimlo eu bod wedi gwneud hynny o reidrwydd. Nododd un o bob pump (21 y cant neu 32 o ymatebwyr) eu bod wedi cychwyn trwy reidrwydd ac oherwydd ffactorau oportiwnistaidd hefyd².

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a arolygwyd gytuno neu anghytuno â datganiadau penodol am eu rhesymau dros gychwyn neu dros fod am gychwyn busnes. Cyflwynir y rhain yn Ffigur 3.5 ac maent yn ategu'r ffaith fod yr ymatebwyr, ar y cyfan, wedi dewis mynd ar drywydd llwybr hunangyflogaeth oherwydd ffactorau cadarnhaol yn hytrach na rhai negyddol (fel anawsterau wrth ddod o hyd i waith).

Ffigur 3.5: Rhesymau'r ymatebwyr a arolygwyd dros fod am gychwyn busnes



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr)


3.7 Agweddau a Dyheadau

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a arolygwyd a oedd yn rhedeg busnes adeg cyflawni'r arolwg (61 y cant neu 79 o 129 o ymatebwyr) yn ymrwmo oriau hir iawn i'w busnes, ac roedd y rhain yn fwy tebygol o fod yn ddynion, yn rhai na gyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru ac o berthyn i'r garfan 25-30 oed. Fel y mae Ffigur 3.6 yn ei ddangos, roedd yr ymatebwyr a arolygwyd a oedd yn ymrwmo ychydig iawn o oriau i'r busnes i gyfrif am gyfran gymharol fechan o'r sampl cyffredinol, a byddai'r

² Roedd 8 y cant pellach (11 o ymatebwyr) naill ai ddim yn gwybod, neu nid oeddent yn uniaethu â'r naill ddatganiad na'r llall.

rhain yn fwy tebygol o ddod o'r garfan 16 i 21 oed ac o gael eu cyrchu trwy Lywodraeth Cymru. Mynegodd yr ymatebwyr a arolygwyd a oedd yn ystyried cychwyn busnes agweddau tebyg, er bod cyfran is o lawer o'r rhain yn bwriadu ymrwymo oriau hir iawn i'w busnes.


Ffigur 3.6: Ymrwymiad amser yr ymatebwyr a arolygwyd i'w busnes



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=129 o gychwynwyr a 18 o ystyrwyr)

Roedd gan yr ymatebwyr a arolygwyd ragolygon ariannol cymysg ar gyfer eu busnes, fel y mae Ffigur 3.7 yn ei ddangos. Roedd ychydig yn llai na hanner y rhai a arolygwyd (46 y cant neu 67 o ymatebwyr) yn bwriadu gwneud 'bywoliaeth gyffyrddus' o'i busnes, ac roedd llai na thraean (29 y cant neu 43 o ymatebwyr) yn bwriadu gwneud cymaint o arian â phosibl. Menywod a'r rhai oedd rhwng 25 a 30 oed oedd y mwyaf uchelgeisiol yn nhermau bod am wneud cymaint o arian â phosibl o'u busnes.


Ffigur 3.7: Rhagolygon ariannol yr ymatebwyr a arolygwyd ar gyfer eu busnes



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=147 o ymatebwyr a oedd yn rhedeg busnes neu wedi ystyried cychwyn busnes o fewn y 12 mis diwethaf)

Yn nhermau manteision ac anfanteision rhedeg busnes, mae Ffigur 3.8 yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth o'r bobl a arolygwyd yn gweld hunangyflogaeth mewn goleuni cadarnhaol o ran ei bod yn rhoi cyfle iddynt gael teimlad o foddhad, i ddefnyddio eu dawn a'u creadigrwydd, a'i bod yn rhoi gwir ymdeimlad o bwrpas iddynt. Mynegwyd safbwynt mwy cymysg o ran a oedd rhedeg busnes yn galluogi iddynt daro cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, gydag ychydig dros hanner (57 y cant neu 70 o ymatebwyr) yn cymryd y safbwynt hwn.

Ffigur 3.8: Safbwyntiau'r bobl a arolygwyd ar fanteision ac anfanteision rhedeg busnes



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=122 o ymatebwyr sy'n masnachu)

Clustnododd yr ymatebwyr a arolygwyd amrywiaeth eang o agweddau yr oeddent yn eu mwynhau am redeg eu busnes eu hunain, a'r mwyaf cyffredin o'r rhain oedd:


- Bod â'r rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain, ac o wneud beth oedden nhw am ei wneud
- Bod yn fos arnyn nhw eu hunain
- Hyblygrwydd yn nhermau oriau gwaith a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Gwneud cwsmeriaid yn hapus ac yn fodlon
- Y gallu i fod yn greadigol
- Cwrdd â phobl a chwsmeriaid
- Peidio â bod yn ymatebol i neb arall.

At hynny, roedd y mwyafrif llethol (92 y cant neu 135 o 147 o ymatebwyr) yn cytuno eu bod yn teimlo'n fwy bodlon ar eu bywyd gwaith o gymharu â gweithio dros rywun arall.

Mae Ffigur 3.9 yn dangos sut roedd yr ymatebwyr a arolygwyd yn gweld pwysigrwydd bod yn hunangyflogedig o'i gymharu â gweithio dros rywun arall, wrth eu galluogi i ddod o hyd i'r amser i ddelio ag ymrwymadau eraill. Ar wahân i'w galluogi i fyw lle maen nhw eisiau byw, rhyw draean yn

unig o'r bobl a arolygwyd a oedd yn rhoi unrhyw bwys ar ymrwymadau eraill, fel gofalu am blant neu berthnasau hŷn. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith fod y rhai a arolygwyd oll yn bobl ifanc â llai o ymrwymadau teuluol ehangach yn eu bywydau.

Ffigur 3.9: Safbwyntiau'r ymatebwyr a arolygwyd am hunangyflogaeth fel cyfrwng i hwyluso ymrwymadau eraill




Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=147 a oedd yn rhedeg busnes neu'n ystyried cychwyn busnes o fewn y 12 mis diwethaf)

3.8 Proffil y Busnesau

Roedd ychydig dros hanner y rhai a oedd yn masnachu adeg cyflawni'r arolwg (52 y cant neu 63 o 122 o ymatebwyr) yn unig fasnachwyr, ac nid oeddent yn cyflogi neb arall. Roedd yr ymatebwyr a gyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru'n fwy tebygol o fod yn unig fasnachwyr (71 y cant neu 36 o ymatebwyr), ac felly hefyd menywod ac ymatebwyr iau rhwng 16 a 21 oed.

Roedd y 48 y cant (59 o ymatebwyr) a oedd yn weddill yn cyflogi staff, gyda 12 y cant (15 o ymatebwyr) yn cyflogi un person arall. Mae Ffigur 3.10 yn dangos y gyfran o ymatebwyr sy'n cyflogi staff - roedd y rhai a oedd yn cyflogi gweithwyr yn fwy tebygol o fod yn rhai a gyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru, yn wrywaidd ac o'r garfan hŷn rhwng 25 a 30 oed.

Ffigur 3.10: Nifer y bobl a gyflogir yn ôl yr ymatebwyr a arolygwyd a oedd yn masnachu




Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=122 a oedd yn masnachu adeg cyflawni'r arolwg)

Roedd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn masnachu adeg cyflawni'r arolwg (80 y cant neu 97 o ymatebwyr) yn ystyried taw eu busnes oedd eu prif ffynhonnell incwm. Roedd tri chwarter (74 y cant neu 17 o ymatebwyr) o'r rhai nad oeddent yn ystyried taw'r busnes oedd eu prif ffynhonnell incwm³ (sef 23 o ymatebwyr), mewn swydd gyflogedig arall.

Mae Ffigur 3.11 yn dangos bod yr ymatebwyr a arolygwyd yn ystyried bod eu busnes, neu y byddai eu busnes, yn gwasanaethu croestoriad o farchnadoedd. Menywod oedd fwyaf tebygol o ddweud bod eu busnes yn gwasanaethu eu hardal leol uniongyrchol neu ardal eu hawdurdod lleol, a'r ymatebwyr iau, rhwng 16 a 21 oed oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn gwasanaethu, neu y byddent yn gwasanaethu, marchnadoedd y DU a rhai rhyngwladol.

³ Doedd dau ddim yn gwybod

Ffigur 3.11: Y marchnadoedd y mae'r busnesau sy'n cael eu rhedeg gan yr ymatebwyr a arolygwyd yn eu gwasnaethu



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=147) Cyfran yr ymatebwyr sy'n rhedeg busnes ar hyn o bryd neu sydd wedi ystyried cychwyn busnes yn ystod y 12 mis diwethaf


I bob pwrpas, roedd yr ymatebwyr a arolygwyd sy'n rhedeg busnes sy'n masnachu ar hyn o bryd naill ai wedi bod mewn cyflogaeth amser llawn (52 y cant neu 63 o ymatebwyr) neu'n astudio yn y brifysgol (19 y cant neu 23 o ymatebwyr) yn ystod y flwyddyn cyn cychwyn rhedeg eu busnes eu hunain. Roedd yr ymatebwyr a gyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru, menywod a'r garfan iau rhwng 16 a 21 oed, yn fwy tebygol o fod wedi bod yn astudio yn y brifysgol. Roedd yr ymatebwyr na chyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru, y garfan hŷn rhwng 25 a 30 oed, a dynion, yn fwy tebygol o fod wedi bod mewn cyflogaeth lawn-amser cyn cychwyn y busnes.

O'r rhai nad oeddent yn masnachu, neu a oedd wedi bod yn ystyried cychwyn busnes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y mwyafrif helaeth (40 y cant neu 10 o'r 25 o ymatebwyr) mewn cyflogaeth lawn-amser adeg cyflawni'r arolwg.

3.9 Pryderon am gychwyn busnes

Y pryderon mwyaf am gychwyn busnes ymysg yr ymatebwyr a arolygwyd oedd y rhai o natur ariannol h.y. bod yn gallu ennill cyflog, neu wneud colled ariannol, fel y mae Ffigur 3.12 yn ei nodi. Roedd y carfanau hŷn yn fwy tebygol o nodi'r pryderon hyn, a hynny'n fwy na thebyg am fod ymrwymadau ariannol ganddynt eisoes, fel morgaeisi neu ymrwymadau teuluol.

Ffigur 3.12: Pryderon yr ymatebwyr a arolygwyd am gychwyn busnes




Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr)

Roedd chwarter y rhai a arolygwyd (25 y cant neu 39 o ymatebwyr) o'r farn nad oeddent wedi wynebu unrhyw rwystrau penodol wrth gychwyn busnes, ac roedd y rhain yn fwy tebygol o fod yn ymatebwyr na chyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru (ar lefel o 32 y cant neu 25 o ymatebwyr).

Y rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd i gychwyn busnes oedd diffyg cyllid personol i'w fuddsoddi yn y busnes (18 y cant neu 28 o ymatebwyr), wedyn diffyg gwybodaeth busnes (12 y cant neu 18 o ymatebwyr) fel y mae Ffigur 3.13 yn ei ddangos.

Ffigur 3.13: Y rhwystrau a wynebodd yr ymatebwyr a arolygwyd wrth gychwyn busnes




Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr)

Yn gyffredinol, roedd tri chwarter (75 y cant neu 114 o ymatebwyr) yn teimlo eu bod wedi ymbaratoi'n dda i gychwyn a rhedeg eu busnes, ond nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sy'n weddill (23 y cant neu 35 o ymatebwyr) o'r un farn. Y menywod oedd fwyaf tebygol o ddatgan eu bod wedi paratoi'n 'dda iawn' tra'r garfan iau rhwng 16 a 21 oed oedd y lleiaf parod.

Roedd gan yr ymatebwyr a arolygwyd lefelau amrywiol o brofiad gwaith perthnasol cyn cychwyn eu busnes, fel y mae Ffigur 3.14 yn ei ddangos, ac ychydig yn llai na hanner y rhai a arolygwyd (47 y cant neu 72 o ymatebwyr) oedd o'r farn bod ganddynt 'brofiad sylweddol'. Roedd y rhain yn fwy tebygol o fod yn ymatebwyr na chyrrhwyd trwy Lywodraeth Cymru, ac o'r garfan hŷn rhwng 25 a 30 oed.

Ffigur 3.14: Profiad gwaith perthnasol a gafwyd cyn cychwyn busnes



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr)

3.10 Cyllid Busnes

Roedd ychydig yn llai na dau draean o'r bobl a arolygwyd wedi (neu'n disgwyl) ariannu cychwyn eu busnes â'u cynilion eu hunain (64 y cant neu 98 o ymatebwyr) ac roedd y rhain yn fwyaf tebygol o berthyn i'r garfan iau rhwng 16 a 21 oed. Mae hyn yn awgrymu o bosibl bod gan y grŵp yma gostau cychwyn is.

Roedd chwarter y bobl a arolygwyd (25 y cant neu 39 o ymatebwyr) wedi cael (neu'n disgwyl cael) buddsoddiad gan ffrindiau a/neu berthnasau, ac roedd menywod yn fwy tebygol o berthyn i'r grŵp yma.

Roedd llai nag un o bob pump (18 y cant neu 27 o ymatebwyr) wedi cael grant busnes, a chwta 11 y cant (17 o ymatebwyr) a oedd wedi cael benthyciad neu orddrafft gan eu banc. Yr ymatebwyr a gyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael grant busnes (23 y cant).

Un ymatebwr yn unig (a oedd yn ystyried cychwyn busnes) a glustnododd ffynonellau cyllid eraill, fel cyllido torfol.


3.11 Cyrchu cymorth

Roedd yr ymatebwyr a arolygwyd wedi cyrchu cymorth neu gyngor o amrywiaeth weddol eang o ffynonellau posibl, ac enwyd cynghorwyr busnes, perthnasau a ffrindiau neu gydweithwyr amlaf yn

hynny o beth, fel y mae Ffigur 3.15 yn ei ddangos. Nid oedd ychydig yn llai nag un o bob pump (19 y cant neu 29 o ymatebwyr) wedi cael cymorth gan neb arall, ac roedd y rhain yn fwy tebygol o fod yn bobl na chyrchwyd trwy Lywodraeth Cymru ac o fod yn ddynion. O'r rhai nad oeddent yn masnachu adeg yr arolwg, roedd union hanner (9 o'r 18 o ymatebwyr) yn cael cymorth gan gynghorydd busnes ac roedd wyth yn cael cymorth gan fentor. Roedd chwech o'r 'ystyrwyr' hyn yn cael cymorth trwy fentrau Llywodraeth Cymru hefyd (fel Busnes Cymru neu Syniadau Mawr Cymru).

Roedd yr ymatebwyr a arolygwyd a oedd wedi cael cymorth gan gynghorydd busnes neu fentor wedi dod i glywed am y cymorth hwn trwy eu gwaith ymchwil eu hunain yn bennaf, wedyn wedi cael eu cyfeirio gan sefydliad arall a chlywed am y cymorth gan ffrindiau neu berthnasau.

Ffigur 3.15: Y cymorth a gafodd yr ymatebwyr a arolygwyd wrth gychwyn eu busnes



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr)

Ar y cyfan, ystyriwyd bod y cymorth a'r cyngor yr oedd yr ymatebwyr a arolygwyd wedi ei gael wedi diwallu eu hanghenion (91 y cant neu 113 o ymatebwyr) a chwta chwech y cant (saith o ymatebwyr) oedd o'r farn nad oedd hynny'n wir yn eu hachos nhw.

Dywedodd yr ymatebwyr a arolygwyd y byddent yn dewis cael gwybod am unrhyw gymorth busnes a allai fod ar gael iddynt trwy'r dulliau canlynol:


- Trwy e-bost (75 y cant neu 115 o ymatebwyr)
- Trwy ddiweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol (27 y cant neu 41 o ymatebwyr)

- Trwy weithdy neu achlysur lleol (24 y cant neu 36 o ymatebwyr)
- Trwy gynghorydd busnes pwrpasol (22 y cant neu 33 o ymatebwyr)
- Trwy rwydwaith o entrepreneuriaid (20 y cant neu 30 o ymatebwyr)
- Trwy wybodaeth ar y we (19 y cant neu 29 o ymatebwyr)

3.12 Dylanwadau ac ymateb pobl eraill

I bob pwrpas, mae'n ymddangos bod y mwyafrif helaeth o rieni, partneriaid, ffrindiau a chyfoedion wedi bod yn gefnogol am benderfyniad yr ymatebwyr a arolygwyd i gychwyn busnes, fel y mae Ffigur 3.16 yn ei ddangos. Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud bod eu rhieni (82 y cant o gymharu â 69 y cant) a'u ffrindiau/cyfoedion (69 y cant o gymharu â 57 y cant) yn gefnogol iawn.

Ffigur 3.13: Ymateb pobl eraill i benderfyniad yr ymatebwyr a arolygwyd i gychwyn busnes



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr)

Roedd rhyw 59 y cant (neu 90 o ymatebwyr) o'r farn bod person penodol wedi bod yn ysbrydoliaeth fusnes iddynt, ond nid oedd 39 y cant (60 o ymatebwyr) o'r un farn. Roedd yr 'ystyrwyr', yn ogystal â'r rhai rhwng 16 a 24 oed, yn fwy tebygol o uniaethu â pherson a oedd wedi bod yn ysbrydoliaeth iddynt.

Y bobl a enwyd amlaf fel ysbrydoliaeth fusnes i'r ymatebwyr a arolygwyd oedd:

- Person busnes lleol (39 y cant neu 35 o ymatebwyr)
- Perthynas (32 y cant neu 29 o ymatebwyr)

- Ffrind (19 y cant neu 17 o ymatebwyr)
- Person busnes enwog (11 y cant neu 10 o ymatebwyr)
- Person busnes cenedlaethol neu ryngwladol (9 y cant neu 8 o ymatebwyr)
- Mentor neu gynghorydd busnes (7 y cant neu 6 o ymatebwyr)
- Athro neu arweinydd o'u haddysg (6 y cant neu 5 o ymatebwyr)
- Pobl yn y cyfryngau cymdeithasol (6 y cant neu 5 o ymatebwyr).

Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr a arolygwyd (49 y cant neu 75 o ymatebwyr) yn credu bod eu haddysg eu hunain naill ai wedi bod yn ddylanwad mawr, neu'n rywfaint o ddylanwad ar eu dymuniad i gychwyn a rhedeg eu busnes eu hunain. Yr 'ystyrwyr' a'r rhai 16 i 21 oed oedd fwyaf tebygol o ddweud bod eu haddysg eu hunain wedi cael dylanwad sylweddol yn hyn o beth.

O'r rhai a oedd yn credu bod eu haddysg eu hunain wedi dylanwadu ar eu dymuniad i gychwyn busnes, ystyriwyd taw'r prif ddylanwadau oedd (yn nhrefn pwysigrwydd):

- Bod y pynciau roeddent wedi eu hastudio yn berthnasol i beth maent yn ei wneud nawr
- Dod i gysylltiad â menter, sgiliau busnes a diwydiant
- Bod eu haddysg wedi darparu syniad busnes ar eu cyfer
- Bod tiwtoriaid, athrawon a darlithwyr wedi bod yn ddylanwad cadarnhaol.

3.13 Effaith cefndiroedd gwledig a threfol

Daw rhai gwahaniaethau i'r amlwg wrth ystyried proffil yr ymatebwyr a arolygwyd sydd mewn ardaloedd trefol (110 o ymatebwyr neu 72 y cant) a'r rhai sydd mewn ardaloedd gwledig (39 ymatebwr neu 28 y cant). Yn benodol, roedd yr ymatebwyr mewn ardaloedd trefol yn cynnwys cyfradd ychydig bach yn uwch o gychwynwyr na'r ymatebwyr mewn ardaloedd gwledig.

Roedd yr ymatebwyr a arolygwyd sydd mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol:

- o fod wedi astudio mewn prifysgol
- o ddibynnu ar eu busnes fel prif ffynhonnell incwm a gweithio oriau hir iawn
- o fod wedi wynebu pryderon a sialensiau sy'n ymwneud ag arian yn ystod y broses o gychwyn, ac ar y cyfan roeddent yn fwy dibynnol ar ffynonellau cyllid eraill yn hytrach na'u cynilion eu hunain

- o fod wedi cael cymorth o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys cynghorwyr busnes a mentoriaid
- o ystyried y gallent fod wedi cychwyn eu busnes dros gyfnod byrrach o amser
- o ddweud bod hunangyflogaeth yn gyffredin yn y sector y maent yn gweithredu ynddo
- o fod wedi cael cymorth cyfeillion a chyfoedion
- o fod wedi cychwyn busnes oherwydd diffyg swyddi o safon â chyflogau da, ac oherwydd anawsterau blaenorol wrth ddod o hyd i waith
- o deimlo eu bod wedi eu gorlethu â gwaith a dan straen, ond o deimlo bod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.


Roedd y rhai sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol:

- o ystyried eu bod yn 'rhedeg busnes' ac yn 'entrepreneur', ac o gael eu sbarduno ar y cyfan gan ddymuniad i 'fod yn fos arnyn nhw eu hunain'
- o boeni am ennill cyflog ac am gael cwsmeriaid yn ystod y broses o gychwyn
- o feddwl bod hunangyflogaeth yn caniatáu iddynt fyw lle maen nhw eisiau byw
- o fod wedi cychwyn busnes o ganlyniad i ffactorau oportiwnistaidd, ac yn llai tebygol o fod wedi cychwyn trwy reidrwydd
- o fod wedi defnyddio eu cynilion eu hunain wrth gychwyn, ac felly o boeni'n llai am gostau buddsoddi mewn cychwyn busnes
- o fod â rhieni cefnogol
- o dreulio llai o amser yn gweithio yn eu busnes
- o ystyried bod rhedeg busnes wedi bod yn uchelgais iddynt erioed.

3.14 Wrth edrych nôl

O ofyn iddynt, pe baen nhw'n cael gwneud y cyfan eto, pa gyngor fydden nhw wedi ei roi iddyn nhw eu hunain, gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau ymarferol, fel y mae Ffigur 3.17 yn ei nodi, er bod rhywfaint o'r cyngor yn mynd i'n groes i'w gilydd e.e. cychwyn yn gynt v. peidio â rhuthro. Roedd y cyngor a roddwyd amlaf yn ymwneud â chyllid h.y. cael lefelau uwch o fuddsoddiad o'r bron, boed hynny trwy eu cynilion personol eu hunain, neu trwy ffynonellau eraill, a'r rhai 25 i 30 oed oedd fwyaf tebygol o gynnig y cyngor hwn (17 y cant). Y garfan iau, rhwng 16 a 21 oed, oedd fwyaf tebygol o gynnig cyngor am fod â lefelau uwch o hyder a ffydd yn eu hunain (30 y cant).

Ffigur 3.17: Y cyngor y byddai'r ymatebwyr a arolygwyd yn ei gynnig iddyn nhw eu hunain pe baent yn cael eu hamser eto



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=135 o ymatebwyr a oedd wedi cychwyn busnes o fewn y tair blynedd diwethaf)

3.15 Y dyfodol

Roedd yr ymatebwyr a arolygwyd yn weddol uchelgeisiol yn eu cynlluniau ar gyfer eu busnes dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gydag ychydig dros ddau o bob tri (69 y cant neu 101 o ymatebwyr) yn dymuno tyfu'r busnes cymaint phosibl a chyflogi gweithwyr (neu rhagor o weithwyr), tra bod 13 y cant (19 o ymatebwyr) am dyfu eu busnes ond heb gyflogi gweithwyr⁴. Ymatebwyr o ffynonellau Llywodraeth Cymru a dynion oedd y mwyaf uchelgeisiol yn nhermau bod am dyfu eu busnes a chyflogi gweithwyr. Nododd ambell un (7 y cant neu 11 o ymatebwyr) eu bod am gychwyn busnes arall.

Roedd lleiafrif o'r rhai a arolygwyd am ganolbwyntio ar gynnal eu busnes (12 y cant neu 17 o ymatebwyr) ac roedd nifer fach iawn (dim mwy na dau ymatebwr ym mhob achos) am gau'r busnes neu leihau maint y busnes.


⁴ Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn

4. Segmentau'r Farchnad

4.1 Cyflwyniad

Cyflawnwyd dadansoddiad o ffactorau fesul agwedd a chlwtwr gan ddefnyddio cwestiynau dehol o'r arolwg am sbardunau ac agweddau'r ymatebwyr at redeg busnes (ceir manylion yn Atodiad C). Cynhyrnod hyn bum segment allweddol o'r farchnad, a bennir yn Ffigur 4.1, y gallai Llywodraeth Cymru eu mabwysiadu i fwydo a gwahaniaethu ei dulliau o fynd ati gyflawni ymgyrchoedd cyfathrebu er mwyn targedu entrepreneuriaid ifanc yn y dyfodol.

Ffigur 4.1: Segmentau'r Farchnad o Entrepreneuriaid Ifanc



Ffynhonnell: Arolwg OB3/Beaufort (Sail=153 o ymatebwyr)

Disgrifir priodoleddau a nodweddion pob grŵp yn yr adran hon, a rhoddir esiamplau i ategu'r astudiaethau achos. Cyflawnwyd cyfweiliadau astudiaeth achos â phump o'r Chwilotwyr Rhyddid, pedwar o'r 'Ar dân amdani', tri o'r Anturwyr Chwilfrydig, dau o'r Arloeswyr Cymdeithasol ac un Mentrwr Lleol. Defnyddir deg o'r astudiaethau achos hyn yn ddiennw i ddangos pob segment o'r farchnad yn yr adran hon⁵.

⁵ Mae pob un o'r pymtheg a gafodd gyfweiliadau ar gyfer yr astudiaethau achos wedi cytuno i rannu eu proffiliau â Llywodraeth Cymru

4.2 Chwilotwyr Rhyddid

Priodwedd allweddol: denu gan fod yn fos ar eu hunain a'r rhyddid sy'n dod yn sgil hynny, ond am wneud bywoliaeth gyffyrddus.

Y grŵp yma (sef 39 y cant o'r rhai a arolygwyd) sy'n ffurfio'r segment fwyaf o'r farchnad, maent i gyfrif am ychydig dros draean o'r sampl a arolygwyd. Yn unol â chyfrannau sampl yr arolwg, mae ychydig yn llai na thraean y Chwilotwyr Rhyddid yn fenywod (31 y cant) a dau draean yn ddynion (69 y cant). Mae ychydig dros hanner (51 y cant) rhwng 25 a 30 oed, traean (36 y cant) yn 22 i 24 oed, ac 14 y cant yn 21 oed ac iau. Nhw yw'r lleiaf tebygol o holl segmentau'r farchnad (19 y cant) o fod mewn ardal wledig. Roedd 44 y cant wedi sefydlu busnes o fewn y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd 46 y cant yn rhedeg busnesau sefydledig. Mae tri chwarter o'r Chwilotwyr Rhyddid (76 y cant) yn disgrifio'r hyn y maent yn ei wneud fel 'rhedeg busnes', ac roedd ychydig dros hanner (54 y cant) yn ystyried eu bod yn 'hunangyflogedig'. Roedd pedwar o bob pump (81 y cant) yn ystyried taw eu busnes yw eu priif ffynhonnell incwm. Mae chwarter (26 y cant) yn gwasanaethu eu tref neu farchnad gymunedol uniongyrchol, tra bod traean pellach (37 y cant) yn gwasanaethu ardal eu hawdurdod lleol neu eu rhanbarth.

Y grŵp segment yma sydd fwyaf tebygol o fod yn rhedeg eu busnes ac yn masnachu (85 y cant) tra bod y rhan fwyaf o'r ystyrwyr sy'n weddill wrthi'n cymryd camau ymarferol i gychwyn eu busnes.

Eu *canfyddiad* bod diffyg cyfleoedd cyflogaeth addas ar gael iddynt sy'n eu gyrru tuag at hunangyflogaeth (54 y cant). Er taw nhw sydd fwyaf tebygol o feddwl bod yna ddiffyg swyddi o ansawdd â chyflogau da ar gael iddynt yn lleol, nid ydynt o reidrwydd wedi wynebu anawsterau personol wrth ddod o hyd i waith cyn sefydlu busnes (dim ond 20 y cant oedd wedi wynebu anawsterau wrth ddod o hyd i waith). Yn wir, mae'r grŵp yma'n debygol iawn (ar gyfradd o 60 y cant) o fod wedi bod mewn cyflogaeth lawn-amser cyn cychwyn eu busnes.

Yn nhermau'r busnesau y maent yn eu rhedeg, y Chwilotwyr Rhyddid yw'r mwyaf tebygol o holl segmentau'r farchnad o fod yn cyflogi rhywun arall (60 y cant, tra bod 40 y cant yn unig fasnachwyr). Y grŵp hwn sy'n cynnwys y gyfran uchaf o grefftwyr (19 y cant) a'r gyfran uchaf o bobl sy'n cyflawni gwaith is-gontractio (13 y cant). Nhw yw'r lleiaf tebygol (chwech y cant) o fod yn rhedeg busnes sy'n gweithredu'n rhyngwladol. Mae chwarter (26 y cant) yn gwasanaethu eu tref neu farchnad gymunedol uniongyrchol, tra bod traean pellach (37 y cant) yn gwasanaethu ardal eu hawdurdod lleol neu eu rhanbarth.

Prif bryder y grŵp yma am gychwyn busnes yw ennill cyflog, a hwn yw'r mwyaf tebygol o'r holl grwpiau i ddweud bod hyn yn bryder (34 y cant). Mae'r grŵp yma'n poeni'n fawr hefyd am wneud colled ariannol (29 y cant). Nid oedd gan gyfran gymharol fechan (12 y cant) unrhyw bryderon am gychwyn busnes. Y Chwilotwyr Rhyddid yw'r mwyaf tebygol o'r holl grwpiau o gael eu sbarduno gan ddymuniad i wneud bywoliaeth gyffyrddus o'u busnes (70 y cant), ond nhw hefyd yw'r mwyaf tebygol o'r holl grwpiau o ddatgan bod pethau eraill yr un mor bwysig â gwneud arian (28 y cant).

Yn nhermau eu cymhelliant i gychwyn busnes, mae'r Chwilotwyr Rhyddid yn cael eu sbarduno gan yr atyniad o fod yn fos arnyn nhw eu hunain (51 y cant) a'r rhyddid y gallai rhedeg busnes ei gynnig iddynt (31 y cant). Roedd ychydig yn llai na thraean (31 y cant) yn credu taw'r datganiad mwyaf cywir i ddisgrifio eu penderfyniad i gychwyn busnes oedd 'rwyf erioed wedi gwybod mae dyna oeddwn i eisiau ei wneud', tra dewisodd 27 y cant 'gwelais, neu rhoddwyd gyfle i mi'. Nid ydynt yn cael eu gyrru gymaint gan uchelgais i redeg busnes, ac ar y cyfan nid ydynt yn eu gweld eu hunain fel entrepreneuriaid (mae 54 y cant yn ystyried eu bod yn entrepreneuriaid). Nhw yw'r lleiaf tebygol o gael eu sbarduno gan ddymuniad i fod yn greadigol neu i ddiwallu anghenion cwsmeriaid.

Yn debyg i'r rhai sydd 'Ar dân amdani', maent yn llai tebygol (ar gyfradd o 22 y cant) o fod wedi cael cymorth gan rywun arall yn ystod y broses o gychwyn busnes.

Drwyddi draw, roedd 39 y cant wedi cael cymorth gan gynghorydd busnes, ac 19 y cant wedi cael cymorth gan fentor. Diddorol yw nodi taw'r grŵp yma (ar gyfradd o 29 y cant) sydd fwyaf tebygol o feddwl y gallent fod wedi lleihau faint o amser y cymerodd iddynt gychwyn y busnes, ac o feddwl y gallai cymorth priodol fod wedi eu cynorthwyo yn hynny o beth.

Y grŵp yma yw'r mwyaf tebygol (ar gyfradd o 42 y cant) o feddwl nad yw addysg wedi cael unrhyw ddylanwad ar eu dymuniad i gychwyn a rhedeg eu busnes eu hunain, ond yn yr achosion lle'r oeddent yn teimlo hynny, y Chwilotwyr Rhyddid yw'r mwyaf tebygol o ddweud taw dod i gysylltiad â menter, sgiliau busnes a diwydiant oedd wedi bod yn bwysig yn hynny o beth.

Mae'r Chwilotwyr Rhyddid yn ymrwymo tipyn sylweddol o amser i'w busnes (mae 76 y cant yn ymrwymo, neu'n bwriadu ymrwymo, oriau hir iawn i'w busnes) a nhw sydd lleiaf tebygol o holl segmentau'r farchnad o deimlo'n fodlon ar eu bywyd gwaith (ar gyfradd o 87 y cant). Nhw hefyd yw'r mwyaf tebygol (49 y cant) o fynegi'r safbwynt nad oes ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Er eu bod yn gyndyn ar y cyfan i gyflogi rhagor o weithwyr yn y dyfodol, nid ydynt yn groes i dyfu eu busnes. Drwyddi draw, mae 65 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes a chyflogi gweithwyr (neu rhagor o weithwyr) ac 19 y cant yn bwriadu tyfu eu busnes ond heb gyflogi gweithwyr.

Sefydlodd y Chwilotwr Rhyddid KA fusnes mewn partneriaeth â ffrind ryw dair blynedd yn ôl. Mae'r busnes yn darparu atebion digidol fel brandio, gwefannau ac apiau ar gyfer cwmnïau newydd a BBaCh sy'n bodoli eisoes. Dechreuodd y busnes fasnachu o gartref, ond erbyn hyn mae'n gweithredu o gyfleuster arloesi penodol ar gyfer busnesau newydd.

Mae gan y Chwilotwr Rhyddid KA brofiad perthnasol iawn yn y maes hwn, am fod ganddo radd mewn Dylunio Cynnyrch (a oedd yn cynnwys astudio modiwlau busnes) a threuliodd gyfnod fel dylunydd llawrydd hunangyflogedig ar ôl ennill ei radd Meistr. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod angen iddo gael profiad mwy perthnasol gydag asiantaeth ddylunio fwy o faint er mwyn cael profiad o weithio ar brosiectau graddfa fwy. Yn ei swydd gyflogedig, roedd y Chwilotwr Rhyddid KA yn teimlo'n gyfyngedig yn nhermau'r cwmpas ar gyfer defnyddio'i arbenigedd creadigol, ac felly penderfynodd ddychwelyd i hunangyflogaeth er mwyn 'gwneud pethau ei ffordd ei hun' a gweithredu mewn amgylchedd mwy creadigol a hyblyg.

Yn ogystal â'r ddau gyfarwyddwr, mae'r busnes yn cyflogi dau weithiwr llawn-amser ac un rhan-amser. Maen nhw'n bwriadu ehangu rhagor ar eu busnes yn y dyfodol agos hefyd.

Roedd y Chwilotwr Rhyddid KA, ynghyd â'i bartner busnes cyfredol a ffrind arall, wedi bod yn ystyried sefydlu eu busnes eu hunain ers amser. Yn wir, treuliodd y tri unigolyn rhyw chwech i naw mis yn cyfuno cyflogaeth lawn-amser â'u gwaith creadigol cyn i ddau ohonynt gymryd y naid ac ymrwymo i'r fenter ar sail lawn-amser. Roedd y ddau'n poeni am gael cyflog digonol o'r fenter newydd a bu rhaid iddynt dderbyn incwm is ar y cychwyn - yn wir, dim ond yn ddiweddar y maent wedi cyrraedd lefel y cyflog yr oeddent yn ei chael yn eu swyddi blaenorol.

Roedd y Chwilotwr Rhyddid KA wedi bod am redeg ei fusnes ei hun erioed, a chafodd ei fagu mewn teulu lle'r oedd un o'i rieni wedi bod yn rhedeg busnesau am y rhan fwyaf o'i oes. Mae'n mwynhau'r hyblygrwydd y mae'n ei gael o redeg ei fusnes ei hun, ac mae'n ymrwymo oriau hir iawn i'r gwaith - yn wir, nid yw e wedi cael unrhyw gyfnod o wyliau yn ystod tair blynedd cyntaf y busnes yn masnachu.

Yn wahanol i broffil cyffredinol y Chwilotwr Rhyddid, mae'r busnes wedi gallu elwa o weithredu mewn cyfleuster datblygu penodol ar gyfer busnesau Cyn symud i'r cyfleuster, ffocws y gwaith oedd ennill 'cyflog gweddol' ond yn sgil symud i stiwdio bwrpasol, gwelwyd newid yn agweddau'r cyfarwyddwyr a'u huchelgeisiau busnes, ac o ganlyniad mae ganddynt ffocws mwy o lawer ar dyfu'r busnes.

Sefydlodd y Chwilotwr Rhyddid LR ei fusnes ei hun ryw ddwy flynedd yn ôl pan oedd yn 21 oed. Mae'r busnes yn darparu modurdy hunanwasanaeth lle gall y cleientiaid drwsio eu ceir a'u beiciau modur eu hunain. Mae'r busnes yn cyflogi mecanydd cymwys sydd wrth law i gynghori'r cleientiaid yn ôl yr angen.

Ar ôl cwblhau ei gwrs coleg, bu'r Chwilotwr Rhyddid LR yn gweithio fel peiriannydd TG yn ennill cyflog da, ond ar ôl tair blynedd o fod mewn cyflogaeth, penderfynodd y byddai'n well ganddo wneud rhywbeth arall. Ar ôl treulio blwyddyn yn gweithio dros fusnes ei dad, gwelodd gyfle busnes newydd ac aeth ati i gaffael uned syml i gychwyn arni. Mae'r busnes wedi symud i uned fwy o faint erbyn hyn, ac mae ganddo un mecanydd llawrydd, un aelod o staff cyflogedig ac un prentis yn ogystal â pherchennog y busnes.

Cymerodd ryw ddwy flynedd i'r Chwilotwr Rhyddid LR sefydlu ei fusnes, ac er iddo gael cymorth gan gynghorydd Busnes Cymru, cafodd drafferth wneud i'w gynghorydd, ei fanc a'i gwmnïau yswiriant ddeall ei syniad busnes arloesol a'i gymryd o ddifri am ei fod mor ifanc. Fodd bynnag, daliodd ati a chafodd gynghorydd busnes arall a oedd yn deall ei gysyniad busnes yn well. Cymerodd y broses o ddiogelu cyllid mwy o amser o lawer na'r disgwyl, ond yn y pen draw diogelodd y Chwilotwr Rhyddid LR y cyllid angenrheidiol i'w alluogi i brynu'r offer a threfnu prydles ar uned fasnachu.

Yn ystod y broses o sefydlu'r busnes, pryder mwyaf y Chwilotwr Rhyddid LR oedd ariannu'r costau cychwyn a thalu'r gorbenion sy'n gysylltiedig â rhedeg y busnes, ac yn arbennig y trethi busnes uchel ar y lle. Wynebodd anawsterau hefyd wrth dod o hyd i'r gweithwyr priodol, ac roedd yn teimlo ei fod wedi gwneud ambell i benodiad amhriodol dros ei ddwy flynedd yn rhedeg y busnes.

Mae'r Chwilotwr Rhyddid LR wedi bod yn agored i fyd busnes trwy gydol ei oes, gyda'i dad, a'i fam-

gu a'i dad-cu, oll yn rhedeg eu busnesau eu hunain. Er bod ei swydd lawn-amser yn talu'n dda, nid oedd yn fodlon yn 'torri bol i wneud arian i rywun arall' ac roedd am adael ei farc fel y person cyntaf yng Nghymru 'i wneud rhywbeth newydd'. Mae'n teimlo'n fwy bodlon o lawer fel ei fos ei hun, er nad yw'n mwynhau'r agweddau gweinyddol ar y gwaith.

Mae'r Chwilotwr Rhyddid LR yn ymrwymo oriau eithriadol o hir i'r busnes, yn gweithio dros 80 awr yr wythnos, saith diwrnod yr wythnos, ond mae'n gobeithio, gydag amser a gyda mwy o sefydlogrwydd, y gall leihau ei ymrwymiad. Mae ganddo gynlluniau i ehangu'r busnes i ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

Lansiodd y Chwilotwr Rhyddid SW ei fusnes ym mis Mawrth 2015 pan oedd yn 24 oed, ac mae ar fin cwblhau ei drydydd tymor yn rhedeg bwyty ar barc carafanau 5 seren mawr mewn ardal wledig yn y gogledd.

Yn nhermau ei gefndir, roedd y Chwilotwr Rhyddid SW yn gweithio fel cogydd mewn gwesty blaenllaw, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, cafodd gyfle i dreulio amser mewn bwytai â sêr Michelin ac i ennill cymhwyster gradd sylfaen mewn rheoli. Pan oedd yn ei wythfed flwyddyn yn y gwesty, gofynnodd perchnogion y parc carafanau a fyddai diddordeb ganddo gymryd prydles y bwyty. Mynegodd ddiddordeb mewn gwneud hynny, ac aeth trwy broses cyfweiliad ffurfiol i ddiogelu'r brydles. Ailwampiodd y perchnogion y bwyty i safon uchel iawn a defnyddiodd Chwilotwr Rhyddid SW ei gynilion ei hun i brynu eitemau pwrpasol ar gyfer y busnes. Gadawodd ei gyflogaeth ym mis Ionawr gyda golwg ar agor ym Mawrth 2015, ond wrth edrych nôl, mae'n cydnabod nad oedd wedi sylweddoli faint o waith paratoi yr oedd angen ei gyflawni i gychwyn busnes arlwyio newydd yn nhermau ail-ddylunio'r gegin, paratoi bwydlenni, cyflogi staff, paratoi cyllidebau a chyflawni'r gofynion iechyd a diogelwch. Yn y pen draw, er y trefnwyd achlysur agor ym mis Mawrth, ni lansiodd y bwyty yn swyddogol tan fis Mehefin y flwyddyn honno.

Mae'r Chwilotwr Rhyddid SW yn ymrwymo oriau hir iawn i'r busnes (mwy na 70 awr yr wythnos). Ni chafodd unrhyw gymorth i gychwyn y busnes heblaw gan ei deulu agosaf, ei ffrindiau, perchnogion y parc carafanau a'r bobl hynny a oedd mewn sector tebyg iddo.

Roedd ei siwrnai i gychwyn busnes yn ddilyniant naturiol o ystyried profiadau ei deulu o fentro, am

fod ei dad a'i ddau dad-cu wedi rhedeg busnesau llwyddiannus.

Pwrpas yn hytrach nag elw sy'n ei gymell, a'i nod yw sefydlu bwyty llwyddiannus, sy'n gwneud y cwsmeriaid yn hapus, i gael ei fodloni'n greadigol fel cogydd ac fel cyflogwr ac i fod â'r rhyddid i wneud ei benderfyniadau ei hun. Er y bu ganddo swydd dda iawn mewn gwesty mawr ei barch, yn ail yn unig i'r cogydd, roedd yn sylweddoli na fyddai'n gallu datblygu ei yrfa ymhellach yn y sefydliad hwnnw, ac roedd wedi dechrau teimlo'n 'sownd' o fewn ei rôl. Ers cymryd y cyfle, mae'r Chwilotwr Rhyddid SW yn teimlo'n hapusach, yn fwy bodlon ac mae'n well ei fyd yn ariannol.

Mae'r Chwilotwraig Rhyddid AE wedi bod yn pobi cacennau fel hobi ers pan oedd yn ifanc iawn. Ar ôl cael ymatebion cadarnhaol iawn i'r ffotograffau o'i chreadigaethau yr oedd yn eu postio ar ei thudalen facebook, ystyriodd sefydlu busnes pobi cacennau ar ôl cwblhau ei haddysg yn yr ysgol a'i harholiadau TGAU. Roedd hi'n awyddus i sicrhau bod ganddi'r sgiliau a'r hyfedredd iawn yn gyntaf, ac felly cyflawnodd gwrs Coginio Proffesiynol Lefel 2, wedyn cwrs Patisserie Lefel 3 yn ei choleg addysg bellach lleol.

Yn ystod ei chyfnod yn y coleg, soniodd y Chwilotwraig Rhyddid AE am ei syniad busnes, a chyfeiriodd ei darlithydd arlwygo hi ymlaen at y cynllun TAFFLAB⁶. Cafodd grant o £1,000 gan y cynllun hwn, ynghyd â chymorth gan fentor pwrpasol. Cymrodd rhan yng ngwersyll hybu Syniadau Mawr Cymru hefyd, a bu'r profiad yn gadarnhaol iawn. Mae'n teimlo bod ei hysgol a'i choleg wedi bod yn gefnogol i'w syniadau: 'Cefais lawer o anogaeth yn y coleg'.

Ar ôl cwblhau ei chyrtsiau coleg, gweithiodd y Chwilotwraig Rhyddid AE ar sail ran-amser i gychwyn, cyn cael swydd lawn-amser gyda'r nod o ennill profiad mewn ceginau proffesiynol. Mae hi'n parhau i bobi cacennau yn ei hamser hamdden, ac mae ganddi wefan i hyrwyddo ei chynnyrch, ond mae hi'n awyddus i gael mwy o brofiad yn y diwydiant a sicrhau bod ganddi gyllid mewn lle cyn cychwyn y busnes ar sail fwy ffurfiol. Ei bwriad yw rhedeg busnes mudol, yn gweithio o gartref.

Gellid disgrifio siwrnai'r Chwilotwraig Rhyddid AE i hunangyflogaeth fel rhywbeth na gynlluniwyd. Yr hyn sy'n ei sbarduno yw'r apêl o fod yn fos arni hi ei hunan, ac mae hi'n credu y byddai galwedigaeth hyblyg yn gweddu iddi. Er bod ennill digon o arian i fod â bywyd braf yn ddyhead iddi,

⁶ <https://www.thersa.org/action-and-research/fellowship-projects/fellowship/taff-lab>

mae'r Chwilotwraig Rhyddid AE yn teimlo ei bod yn eithaf cystadleuol, a thaw llwyddiant yw'r peth sy'n ei sbarduno yn hytrach nag arian.

Rhwystyr ariannol yw'r prif beth sy'n ei rhwystro rhag ymrwymo'n llwyr i'r fenter busnes, o ran y byddai'n well ganddi fod yn gallu ariannu ei busnes o'i chynilion ei hun. Ei phrif gyngor iddi hi ei hunan pe bai'n cael ei hamser eto fyddai bod yn fwy allblyg, a sefydlu rhwydweithiau a fyddai'n fuddiol i'w busnes yn y tymor hir.

4.3 Y rhai 'Ar dân amdani'

Priodwedd allweddol: entrepreneuriaid hyderus ac uchelgeisiol sy'n cael eu gyrru gan ddymuniad i wneud arian, ond a allai fod wedi ymbaratoi'n well ar gyfer rhedeg busnes.

Y rhai 'Ar dân amdani' yw tua chwarter o'r sampl a arolygwyd (27 y cant) a nhw yw'r segment mwyaf ond un o'r farchnad. Entrepreneuriaid uchelgeisiol yw'r rhain a'r dymuniad i wneud arian yw eu sbardun gyda 90 y cant yn dymuno 'gwneud cymaint o arian â phosibl' o'u menter. Mae dau o bob pump (39 y cant) yn fenywod a thri o bob pump (61 y cant) yn ddynion. Yn nhermau oedran, mae 51 y cant rhwng 25 a 30 oed, 24 y cant rhwng 22 a 24 oed, a 24 y cant yn 21 oed ac iau: o gymharu â segmentau eraill o'r farchnad, maent yn fwy tebygol o fod yn 25 i 30 oed. Mae traean wedi astudio mewn coleg (11 y cant) neu brifysgol (24 y cant) cyn cychwyn eu busnes, er bod mwyafrif mawr o'r rhai 'Ar dân amdani' (43 y cant) wedi bod mewn cyflogaeth lawn-amser. Maen nhw'n fwy tebygol o fod wedi cael eu cyrchu trwy ffynonellau data heblaw Llywodraeth Cymru (30 y cant). Disgrifiodd tri chwarter (78 y cant) beth y maent yn ei wneud fel 'rhedeg busnes' tra'r oedd 43 y cant yn ystyried eu bod yn 'hunangyflogedig'.

Nhw yw'r mwyaf tebygol o fod wedi ystyried eu bod yn entrepreneuriaid erioed (76 y cant), ac roedd 39 y cant ohonynt o'r safbwynt taw'r datganiad 'Rwyf erioed wedi gwybod mai dyna oeddwn eisiau ei wneud' oedd yn adlewyrchu orau eu penderfyniad i gychwyn busnes. Yn groes i hynny, fodd bynnag, nhw hefyd yw'r grŵp a oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cychwyn eu busnes o orfod (24 y cant). Maen nhw'n debygol o enwi 'bod yn fos arnyn nhw eu hunain' fel rheswm dros gychwyn eu busnes (56 y cant) ac maent yn llai tebygol na'r cyfartaledd, ar gyfradd o 22 y cant, o fod wedi gwneud hynny er mwyn cael 'mwy o ryddid'.

Nhw yw'r mwyaf hyderus o'r holl grwpiau, gyda chwarter (24 y cant) yn hawlio nad oedd unrhyw bryderon o gwbl ganddynt am gychwyn busnes. Mae'r rhai 'Ar dân amdani' yn debygol iawn o fod wedi cychwyn (yn hytrach nag ystyried cychwyn) eu busnes, ac roedd 95 y cant ohonynt yn masnachu adeg cyflawni'r arolwg. Nhw yw'r mwyaf tebygol o fod yn gweithredu busnesau sy'n gwasanaethu marchnadoedd ehangach, yn aml ledled y DU ac yn rhyngwladol - cwta un o bob pump (20 y cant) sy'n gwasanaethu marchnad eu tref neu gymuned leol uniongyrchol, mae 26 y cant pellach yn gwasanaethu ardal eu hawdurdod lleol neu eu rhanbarth, tra bod 23 y cant yn gwasanaethu marchnadoedd rhyngwladol. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod wedi bod yn rhedeg busnes am gyfnod hirach o amser. O'r rhai a oedd wedi masnachu, neu a oedd yn masnachu adeg cyflawni'r arolwg, roedd 58 y cant wedi bod yn rhedeg busnes ers dros flwyddyn.

Y prif rwystrau sy'n wynebu'r rhai 'Ar dân amdani' wrth sefydlu eu busnes yw diffyg cyllid personol i'w fuddsoddi yn y busnes (22 y cant) a diffyg gwybodaeth am fusnes (20 y cant). Maen nhw'n eu hystyried eu hunain i fod y lleiaf parod (ar gyfradd o 68 y cant) i gychwyn a rhedeg busnes: yn wir, gallai gwybodaeth a phrofiad gwell fod wedi helpu rhai ohonynt i gychwyn eu busnes dros gyfnod byrrach, ac felly hefyd cymorth ar agweddau ar gyllido ac ariannu eu menter. Mae'r grŵp yma'n fwy tebygol o ddweud taw eu cyngor iddyn nhw eu hunain, pe baen nhw'n cael eu hamser eto, fyddai cyflawni mwy o waith ymchwil (13 y cant).

Maen nhw'n fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddisgwyl ariannu cychwyn eu busnes o'u cynilion eu hunain (66 y cant) a thrwy fuddsoddiadau gan ffrindiau a pherthnasau (34 y cant). Er nad yw un o bob pump (22 y cant) yn cyrchu unrhyw fath wahanol o gymorth, roedd y rhai a oedd cael cymorth yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gyrchu cymorth gan gynghorydd busnes (49 y cant) yn ogystal â chyfrifydd (20 y cant).

Nhw (ynghyd â'r Anturwyr Chwilfrydig) yw'r lleiaf tebygol, ar gyfradd o 85 y cant, o fod â rhieni sy'n gefnogol o'u penderfyniad i gychwyn busnes, ond nhw yw'r mwyaf tebygol, ar gyfradd o 44 y cant, o ddweud bod perthynas wedi bod yn ysbrydoliaeth fusnes iddynt. Mae addysg wedi chwarae rhyw ran yn nymuniad y grŵp yma i gychwyn a rhedeg eu busnes eu hunain: ac yn yr achosion hynny, mae grŵp y rhai 'Ar dân amdani' yn cyfeirio at y pynciau y maent wedi eu hastudio fel rhai sy'n berthnasol i'r hyn y maent yn ei wneud nawr.

Nid yw tua hanner y grŵp yma sy'n masnachu (51 y cant) yn cyflogi neb arall, ac mae cyfran debyg (53 y cant) yn ymrwymo oriau hir iawn i'w busnes. Mae chwarter (25 y cant) o'r grŵp yma'n ymrwymo i'w busnes o fewn wythnos waith gyflawn.

Yn unol â chyfartaledd yr arolwg, mae pedwar o bob pump o'r rhai 'Ar dân amdani' (81 y cant) yn dibynnu ar eu busnes fel eu prif ffynhonnell incwm.

Y grŵp yma yw'r mwyaf tebygol o deimlo eu bod wedi eu gorlethu â gwaith a dan straen (59 y cant) ac yn unig (32 y cant), ond nhw hefyd yw'r mwyaf tebygol o ddefnyddio eu dawn a'u creadigrwydd (100 y cant) a chael gwir ymdeimlad o foddhad a phwrpas o redeg eu busnes eu hunain (70 y cant). Nhw hefyd yw'r mwyaf tebygol o deimlo bod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith (70 y cant). Nhw yw'r mwyaf tebygol o deimlo'n fwy bodlon yn gweithio drostynt eu hunain na dros eraill (98 y cant). Nhw hefyd yw'r mwyaf tebygol o feddwl bod hunangyflogaeth yn eu cynorthwyo i weithio o gwmpas eu problemau iechyd meddwl eu hunain (33 y cant) a'u cyfrifoldebau gofal plant (43 y cant).

Y rhai 'Ar dân amdani' yw'r mwyaf uchelgeisiol o grwpiau segment y farchnad, gyda phedwar o bob pump (80 y cant) yn bwriadu tyfu eu busnes cymaint â phosibl a chyflogi gweithwyr (neu rhagor o weithwyr). Mae 13 y cant pellach yn bwriadu tyfu'r busnes heb gyflogi gweithwyr.

Mae'r o'r rhai 'Ar dân amdani' RQ, yn rhedeg busnes sy'n cynhyrchu tedis, clustogau a blancedi â llaw. Mae'r rhain yn aml yn unigryw ac yn cael eu gwneud yn bwrpasol yn ôl gofynion y cwsmer. Mae hi'n gwerthu ei chynnyrch trwy'r siop ar-lein Etsy, ac mae hi wedi bod yn unig fasnachwr cofrestredig ers Ebrill 2017. Mae'r un 'Ar dân amdani' RQ yn gweithio gartref, ac er ei bod hi'n cymryd cyflog o'r busnes, nid yw hyn yn gyflog byw ar hyn o bryd. Yn wir, mae hi'n ystyried cymryd gwaith rhan-amser er mwyn ategu ein hincwm o'r busnes.

Dechreuodd ei siwrnai i gychwyn busnes pan ddatblygodd ddiddordeb mewn gwnïo gartref fel plentyn. Yn y chweched dosbarth, postiodd lun o dedi bêr yr oedd wedi ei greu ar lein. Denodd hyn dipyn o ddiddordeb a sbardunodd yr un 'Ar dân amdani' RQ i ystyried y syniad o geisio gwneud bywoliaeth o wnïo. Hyn i raddau helaeth a'i sbardunodd i gofrestru ar gwrs Gradd Dylunio Cynnyrch i ddatblygu ei sgiliau ym maes electroneg, gwneud tlysau, gwnïo, dylunio cynnyrch a gweithgynhyrchu. Cafodd radd 2:1 ac enillodd wobwr flaenllaw am y prosiect mwyaf hyfyw yn ei blwyddyn olaf - sef set o gynnyrch a oedd yn cynnwys tedi bêr, blanced, clustog a gorchudd pen gwely. Rhoddodd y radd gyfle iddi ystyried theori busnes ac arferion busnes trwy leoliadau gwaith. Ar ôl ymadael â'r brifysgol, cyflawnodd ychydig o waith ymchwil i'r farchnad trwy werthu ei chynnyrch mewn marchnad myfyrwyr yn ei hen brifysgol a bu modd iddi glustnodi beth oedd yn gwerthu'n dda a beth oedd yn bris addas ar gyfer ei chynnyrch. Gwnaeth £500 o werthu cwta hanner y cynnyrch. Hyn oedd y catalydd i gychwyn a chofrestru fel unig fasnachwr yn Ebrill 2017 a

defnyddio'r dudalen siopa Etsy yr oedd wedi ei sefydlu ynghynt. Ers hynny, mae hi wedi cymryd rhan yn sesiynau dwys Syniadau Mawr Cymru.

Mae'r busnes yn rhoi hyblygrwydd iddi sy'n cynorthwyo ei ffordd o fyw; mae'n gweithio pan ddaw archebion i mewn, ond mae hi'n gallu cymryd amser i ffwrdd gyda'i theulu a'i ffrindiau hefyd a chael yr amser i gyflawni uchelgeisiau eraill. Mae hi'n mwynhau gwneud penderfyniadau ar ei phen ei hun am ddyluniad, cost a maint yr elw. Oherwydd natur hyblyg y busnes, mae'n gallu ei gyflawni yn unrhyw le yn y byd.

Mae'r un 'Ar dân amdani' RQ wedi cael ei chymell gan y ffaith ei bod hi wedi gweld cyfle i wneud rhywbeth y mae'n ei garu. Mae hi'n bwysig iddi hi ei bod hi'n gallu creu cynnyrch o safon am bris y gall pobl ei fforddio, wrth ganiatáu iddi ennill incwm cynaliadwy iddi hi ei hunan.

Yn nhermau dyheadau at y dyfodol, mae'r un 'Ar dân amdani' RQ yn uchelgeisiol. Hoffai gael lle gwaith penodol, gweithdy pwrpasol o bosibl, a chymorth i greu'r cynhyrchion. Yn y tymor hir, hoffai gael gofod siop â gweithdy yn y cefn, fel y gall pobl weld ei gwaith.

Yr un 'Ar dân amdani' FK yw sylfaenydd busnes sy'n darparu silicon, resin, ffôm, cemegolion a deunyddiau eraill sy'n cael eu defnyddio i greu propiau ar gyfer y diwydiannau creadigol. Cafodd ei hyfforddi fel Gwneuthurwr Propiau yn RADA, lle datblygodd wybodaeth helaeth am y deunyddiau hyn, a gwelodd fwch yn y farchnad: nid oedd gan y cwmnïau a oedd yn gweithio yn y farchnad hon brosesau prynu rhwydd, ychydig o bresenoldeb oedd ganddynt ar-lein, ac nid oedd unrhyw bresenoldeb ganddynt yng Nghymru.

Roedd ganddi brofiad blaenorol cadarn yn y sector y mae'n gweithio ynddo ar ôl treulio dwy flynedd yn gweithio'n llawrydd yn y diwydiannau creadigol yn Llundain. Mae hi wedi dilyn cwrs Meistr yn y sector hefyd. Ar ôl dychwelyd i fyw yng Nghymru, gwelodd yr un 'Ar dân amdani' FK flwch clir yn y farchnad ac aeth ati i ffeindio uned â'r cyfleusterau priodol, a chychwynnodd ei thenantiaeth arni ym mis Mai 2017. Mae'r gwaith yn dibynnu ar werthu ar y we i bobl sydd â diddordeb yn y maes fel hobi yn ogystal â masnachu busnes i fusnes o fewn y cyfryngau.

Mae dau gyfarwyddwr gan y cwmni ar hyn o bryd, un ohonynt yw mam FK sy'n cynorthwyo'r busnes ar yr ochr weinyddol. Yn wir, dywedodd bod rôl y naill a'r llall o'i rhieni wedi bod yn hanfodol

am fod y ddau wedi rhedeg busnesau trwy gydol eu bywydau, ac maent yn gallu cynnig cyngor a chymorth yn ôl yr angen.

Mae ei chymhelliant i gychwyn busnes wedi deillio i raddau helaeth o weld bwlch yn y farchnad - mae rhai o'r cwmnïau eraill sy'n gweithredu yn y sector, ac sydd wedi bodoli ers degawdau, i'w gweld wedi mynd yn hunanfodlon yn eu dull o fynd ati i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid: 'Mae gweld cyfle fel hyn, lle mae gennych chi'r sgiliau a'r profiad i'w 'gwneud hi'n well' yn beth prin iawn'. Er bod y cam o gychwyn y busnes wedi digwydd yn gymharol gyflym (cofrestrwyd y busnes fel cwmni cyfyngedig ym mis Mawrth a dechreuodd fasnachu ym mis Gorffennaf yr un flwyddyn) mae cysyniad y busnes wedi bod ar y gweill ers rhyw ddwy flynedd i gyd.

Mae'r un 'Ar dân amdani' FK wedi cael cymorth Syniadau Mawr Cymru ac mae hi wedi mynychu gwerysll hybu gyda nhw. Llwyddodd i gael grant o £1000 trwy'r gwerysll a bu hyn yn amhrisiadwy yn ystod y cyfnod cychwynol yma.

Un o'r sbardunau allweddol eraill y tu ôl i benderfyniad yr un 'Ar dân amdani' FK i sefydlu busnes oedd sefydlu busnes a fyddai'n caniatáu iddi ddilyn gyrfa a lle gallai daro'r cydbwysedd cywir rhwng bywyd a gwaith. Mae ganddi anabledd sy'n gallu cyfyngu ar faint o amser y mae'n gallu gweithio ac mae rhedeg ei busnes ei hun wedi darparu dewis arall iddi yn hytrach na gweithio'n llawrydd yn y diwydiant. Nid yw'r un 'Ar dân amdani' FK erioed wedi ei hystyried ei hun fel rhywun a fyddai'n gweithio dros rywun arall: 'Dwi'n un o'r bobl hynny sy'n ddigon hapus i weithio'n galed iawn, dim ond i mi allu gweld budd yn dod o'r peth'.

Yn nhermau ei dyheadau at y dyfodol, mae'r un 'Ar dân amdani' FK wedi gosod targed o bum mlynedd iddi hi ei hunan i wneud ei busnes yn brif gyflenwr y DU ac Ewrop, ac mae'n gobeithio y gall gyflogi gweithwyr er mwyn cyflawni'r amcan.

4.4 Anturwyr Chwilfrydig

Priodwedd allweddol: unigolion sy'n 'dablo' mewn busnes oherwydd y rhyddid y mae'n ei gynnig a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig i fod yn greadigol, a hynny'n aml yn eu hamser rhydd, heb fod yn ddibynnol ar yr incwm y mae'n ei greu.

Y trydydd sector o'r farchnad, y Anturwyr Chwilfrydig, sydd i gyfrif am un rhan o chwech o'r sampl a arolygwyd (17 y cant). Mae'r Anturwyr Chwilfrydig yn fwy tebygol o lawer o fod yn ddynion (81 y cant) ac maent yn fwy tebygol hefyd o berthyn i'r carfanau iau. Yn nhermau eu proffil oedran, roedd 38 y cant o dan 21 oed, roedd 38 y cant arall yn 22 i 24 oed, a 23 y cant dros 25 oed. Maent yn fwy tebygol hefyd (46 y cant) o fod yn gweithio mewn, neu ar gyrion dinas, neu mewn ardal gymharol wledig (31 y cant) nag unrhyw segment arall o'r farchnad, ac mae'r grŵp yma'n cynnwys cyfran uwch o ymatebwyr y mae problemau neu ddiffygion iechyd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau (wyth y cant). Mae'r grŵp yma'n addysgedig, gyda 58 y cant wedi eu haddysgu hyd lefel gradd neu'n uwch. Maent yn fwy tebygol hefyd (ar gyfradd o 23 y cant) o fod wedi cael eu cyrchu trwy ffynonellau data Llywodraeth Cymru. Mae Anturwyr Chwilfrydig yn gwasanaethu marchnadoedd gwahanol iawn - tra bod 23 y cant yn gwasanaethu eu tref neu gymuned uniongyrchol, mae 23 y cant pellach yn gwasanaethu marchnadoedd y DU a rhai rhyngwladol.

Yn nhermau'r daith i gychwyn busnes, yr Anturwyr Chwilfrydig yw'r mwyaf tebygol o holl grwpiau segment y farchnad o fod yn 'ystyrwyr', a nhw yw'r lleiaf tebygol o fod wedi cychwyn eu busnes: mae dros chwarter (27 y cant) yn ystyrwyr, tra bod tri chwarter (73 y cant) wedi cychwyn busnes. At hynny, mae'r ystyrwyr o'r grŵp segment yma o'r farchnad yn fwy tebygol o fod yng nghamau cynnar y siwrnai, ac o fod wrthi'n cyflawni gweithgareddau fel ymchwilio, cynllunio a phrofi syniadau busnes, yn hytrach na chynllunio'n ymarferol ar gyfer cychwyn.

Mae rhyw draean o'r Anturwyr Chwilfrydig (31 y cant) yn ystyried taw beth y maent yn ei wneud yw 'gwneud arian o hobi', er ei fod yn werth nodi bod mwy na hanner ohonynt (58 y cant) yn ystyried eu bod yn 'rhedeg busnes'. Nhw yw'r lleiaf tebygol o'r holl grwpiau o ystyried eu hunain i fod yn entrepreneuriaid (ar lefel o 54 y cant).

Yr Anturwyr Chwilfrydig yw'r mwyaf tebygol, o bell ffordd, o holl segmentau'r farchnad o ystyried eu busnes fel rhywbeth y maent naill ai yn ei wneud yn eu hamser rhydd (27 y cant) neu yn ystod wythnos waith fer (38 y cant). Nhw yw'r lleiaf tebygol o'r holl grwpiau o fod yn cyflogi rhywun arall (nid yw 80 y cant yn cyflogi neb arall, a dim ond un gweithiwr ychwanegol sydd gan bob un o'r rhai sydd yn cyflogi rhywun).

Yn nhermau eu cymhelliant i gychwyn busnes, maent yn cael eu sbarduno yn llethol i gychwyn busnes gan y dymuniad i fod â mwy o ryddid (58 y cant o gymharu â 29 y cant ar draws pawb a arolygwyd) ac mae bod yn gallu bod yn 'fos arnyn nhw eu hunain' (54 y cant) yn ystyriaeth bwysig iawn ar gyfer y grŵp yma hefyd. Nhw yw'r segment mwyaf tebygol o'r farchnad, ar gyfradd o 15 y

cant, i ddweud eu bod 'am wneud rhywbeth diddorol â'u hamser rhydd'. Ar y cyfan, maen nhw'n credu bod rhedeg busnes yn caniatáu iddynt ddefnyddio eu dawn a'u creadigrwydd, a'i fod yn rhoi gwir ymdeimlad o foddhad a phwrpas iddynt (roedd 100 y cant yn cytuno bod rhedeg busnes yn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio eu dawn a'u creadigrwydd yn ogystal â chael gwir ymdeimlad o bwrpas a boddhad). Yr Anturwyr Chwilfrydig yw'r lleiaf tebygol o holl grwpiau segment y farchnad o feddwl eu bod wedi cychwyn busnes oherwydd unrhyw anawsterau a gafwyd yn dod o hyd i waith (27 y cant) neu am fod diffyg swyddi o safon â chyflog da ar gael (42 y cant).

Yr Anturwyr Chwilfrydig yw'r lleiaf tebygol o'r holl grwpiau i ystyried eu busnes fel eu prif ffynhonnell incwm (gyda 73 y cant o'r grŵp yn mynegi'r safbwynt hwn o gymharu â chyfartaledd y sampl, sef 80 y cant) ac yn yr holl achosion hyn, maent yn dibynnu ar swydd gyflogedig arall am eu hincwm. Gwneud bywoliaeth gyffyrddus o'u menter yw eu prif flaenoriaeth, gyda 58 y cant yn mynegi'r safbwynt yma. Nhw yw'r mwyaf tebygol o ddweud bod eu penderfyniad i gychwyn busnes wedi cael ei sbarduno gan y ffaith eu bod yn mwynhau gweithio ar hobi a/neu am eu bod am weithio rhan-amser: dewisodd 23 y cant o'r grŵp yma'r datganiad hwn fel yr un oedd yn adlewyrchu orau eu prif benderfyniad i gychwyn busnes. Yr Anturwyr Chwilfrydig hefyd yw'r mwyaf tebygol o grwpiau segment y farchnad i ystyried hunangyflogaeth fel arfer gyffredin yn y sector y maent yn gweithredu ynddo (77 y cant).

Er bod ychydig yn llai na hanner y grŵp yma a oedd yn rhedeg busnes mewn cyflogaeth lawn-amser cyn dechrau rhedeg eu busnes eu hunain (47 y cant), nhw yw'r mwyaf tebygol o holl segmentau'r farchnad o fod wedi bod yn astudio mewn prifysgol cyn rhedeg eu busnes eu hunain (27 y cant).

Yr Anturwyr Chwilfrydig yw'r mwyaf tebygol o holl segmentau'r farchnad o boeni am wneud colled ariannol o'u menter, a hwn oedd y pryder mwyaf cyffredin y soniodd y grŵp yma amdani o bell ffordd (31 y cant).

Yr Anturwyr Chwilfrydig yw'r lleiaf tebygol o holl segmentau'r farchnad o ddweud bod ganddynt brofiad gwaith perthnasol 'sylweddol' cyn cychwyn busnes (23 y cant), er nhw hefyd yw'r mwyaf tebygol o ddweud bod ganddynt 'rywfaint' o brofiad perthnasol (42 y cant). Nhw hefyd yw'r lleiaf tebygol o holl segmentau'r farchnad o ystyried bod ganddynt rieni (81 y cant), partneriaid (46 y cant) neu ffrindiau/cyfoedion (85 y cant) cefnogol, ac felly nhw yw'r lleiaf tebygol o glustnodi'r bobl hyn fel ysbrydoliaeth fusnes iddynt.

Ar y cyfan, nid yw'r Anturwyr Chwilfrydig yn ystyried eu bod wedi eu gorlethu â gwaith na dan straen (dim ond 33 y cant o'r rhai a oedd yn masnachu a oedd yn teimlo felly) a nhw yw'r lleiaf tebygol o

ystyried eu bod yn unig (13 y cant o'r rhai a oedd yn masnachu). Yn wir, nhw yw'r mwyaf tebygol, ar gyfradd o 46 y cant, o ystyried bod hunangyflogaeth yn gyfle sy'n cynnig yr amser a'r hyblygrwydd iddynt ofalu am berthnasau hŷn.

Yn nhermau eu dyheadau at y dyfodol, nid yw'r Anturwyr Chwilfrydig yn arbennig o uchelgeisiol eu gorwelion, a nhw yw'r lleiaf tebygol o fod am dyfu eu busnes cymaint â phosibl a chyflogi gweithwyr. Er hyn, mae 58 y cant am dyfu eu busnes cymaint â phosibl a chyflogi gweithwyr (neu rhagor o weithwyr), tra bod 12 y cant pellach am dyfu eu busnes ond heb gyflogi gweithwyr.

Sefydlodd yr Anturwr Chwilfrydig SD ei fusnes tylino chwaraeon a chinesiolog yn 2016 yn ystod ei flwyddyn olaf yn astudio ar gyfer cwrs Gradd y Gwyddorau Chwaraeon, hyfforddi a pherfformiad. Ar y cychwyn, bu'n rhedeg y busnes ar sail ran-amser wrth ddilyn ei astudiaethau, a graddiodd yn ddiweddar ym mis Mai 2017. Mae'r busnes yn gweithredu o ystafell sydd newydd gael ei hadnewyddu yng nghartref ei rieni ac o ystafell y mae'n ei phrydlesu'n achlysurol mewn cyfleuster pêl-droed lleol.

Mae'r Anturwr Chwilfrydig SD yn y broses o bontio rhwng rhedeg y busnes ochr yn ochr â'i radd i ehangu ei sylfaen o gleientiaid. Mae ei gostau o ran gorbenion yn isel iawn ar hyn o bryd ac felly mae ei eisoes yn gwneud elw, er nad yw'r incwm y mae'n ei gael gyfwerth â chyflog byw derbynol eto.

Mae cychwyn busnes wedi bod yn dipyn o her i'r Anturwr Chwilfrydig SD am nad oes unrhyw gefndir blaenorol ganddo ym myd busnes, ond mae e wedi gallu manteisio ar gyngor a chefnogaeth ei rieni. Cafodd gymorth hefyd gan arweinydd entrepreneuriaeth ei goleg wrth astudio ar gyfer ei radd, ac mae e wedi cael rhywfaint o brofiad gwaith ymarferol uniongyrchol o fewn y sector. Mae e wedi buddsoddi yng nghostau cychwyn y busnes gan ddefnyddio ei gronfeydd ei hun, er ei fod yn cydnabod bod y costau cychwyn wedi bod yn weddol resymol hyd yn hyn.

Dechrau ar raddfa fach oedd yr amcan, ond ei fwriad yw diogelu ei adeilad ei hun yn y dyfodol pan fydd y busnes wedi bwrw gwreiddiau. Fodd bynnag, fydd maint y cyllid fydd ei angen i ehangu i mewn i unrhyw eiddo o dan brydles yn rhwystr i dwf y busnes.

Enillodd dau o wobrau Syniadau Mawr Cymru yn eu hachlysur gwobrwyo blynyddol yn 2017 ac mae e wedi manteisio ar gyrsiau cychwyn busnes Busnes Cymru hefyd.

Mae'r Anturwr Chwilfrydig SD wedi bod yn ystyried cychwyn busnes ers rhyw bedair blynedd i gyd, ond roedd yn cydnabod bod angen iddo gael y cymwysterau priodol yn gyntaf. Roedd e am redeg ei fusnes ei hun am ei fod yn hoffi'r syniad o fod yn fos arno fe'i hun, a'r hyblygrwydd yr oedd hynny'n ei gynnig. Yn wir, roedd profiadau gwaith blaenorol wedi ei adael yn anfodlon ac yn anhapus. Ers sefydlu'r busnes, roedd yr Anturwr Chwilfrydig SD yn mwynhau'r rhyddid o weithio drosto'i hun a chael cwrdd â chwsmeriaid, ond mae'n cydnabod bod y gwaith yn gallu bod yn dymhorol o ran ei natur oherwydd ei ddibyniaeth ar gleientiaid sy'n chwarae pêl-droed a rygbi.

Graddiodd yr Anturwraig Chwilfrydig SR o'r brifysgol â gradd mewn Seicoleg yn 2016, ac ar ôl cymryd ychydig fisoedd o wyliau, sefydlodd ei busnes ei hun yn Ionawr 2017. Nod y busnes yw darparu dosbarthiadau myfyrdod a sesiynau fesul un ar gyfer cwsmeriaid sy'n dioddef straen, ac mae'n gwerthu amrywiaeth o gynnyrch cosmetig a gofal y croen hefyd. Mae'n rhedeg y busnes o gartref ei rhieni ar hyn o bryd, ond bwriad SR yw symud i stiwdio briodol gyda rhywun arall sy'n gweithio yn yr un maes yn y dyfodol agos. Ar hyn o bryd, mae SR yn gweithio diwrnodau byrion (rhwng 10am a chanol y prynhawn) ac mae'n dibynnu ar y busnes fel ei phrif ffynhonnell incwm.

Mae ei diddordeb yn y maes gwaith yma'n deillio o'r ffaith fod SR wedi dechrau dioddef o epilepsi yn ei harddegau, ac roedd y feddyginiaeth yr oedd yn ei chymryd yn achosi blinder iddi.

Dechreuodd fyfyrdod fel ffordd o wella ei epilepsi a lleihau ei dibyniaeth ar feddyginiaeth. Roedd llwyddiant ei myfyrdod yn golygu bod SR yn awyddus i rannu'r manteision ag eraill, felly aeth ati i ymchwilio i'r posibilrwydd o gychwyn busnes yn y maes. Yr awydd i helpu pobl sy'n ei chymell.

Roedd ei chostau cychwyn yn eithaf isel, ond cafodd gymorth ariannol gan ei rieni i brynu stoc o'r nwyddau cosmetig a gofal y croen. Manteisiodd hefyd ar gymorth mentora trwy Syniadau Mawr Cymru.

Mae hi'n ddyddiau cynnar i'r busnes, ond mae SR wedi ymrwymo i adeiladu ymhellach arno, ac i ehangu sylfaen ei chwsmeriaid i gynnwys cleientiaid corfforaethol yn benodol. Er mwyn gwneud hynny, mae SR yn cydnabod bod angen iddi ddysgu o'r gwersi y mae hi wedi eu dysgu ers dechrau masnachu, gan gynnwys pwysigrwydd sefydlu cynllun busnes â strategaeth brisio glir, ac un sy'n seiliedig ar ymchwil drylwyr i'r farchnad.

4.5 Arloeswyr Cymdeithasol

Priodoleddau allweddol: Unigolion uchelgeisiol sy'n cael eu denu at redeg eu busnes eu hunain er mwyn sbarduno newid cymdeithasol a gwneud gwahaniaeth i'w cymuned a'u cleientiaid, a hynny wrth wneud bywoliaeth gyffyrddus.

Gellid ystyried bod rhyw un ym mhob deg o'r sampl (10 y cant) yn Arloeswyr Cymdeithasol ac mae'r rhain yn cael eu sbarduno i gychwyn busnes gan ddymuniad i weld newid cymdeithasol yn fwy nag at enillion personol.

Yn nhermau eu proffil demograffaid, maent yn dueddol o beidio â chael eu dominyddu gan unrhyw garfan oedran benodol. Mae chwarter (25 y cant) yn 21 oed ac iau, mae 31 y cant rhwng 22 a 24 oed, a 44 y cant dros 25 oed. Maent yn fwy tueddol o fod yn fenywod na grwpiau segment eraill y farchnad (44 y cant) ac ar y cyfan maent yn fwy addysgedig (gyda 57 wedi eu haddysgu i Lefel 5 neu'n uwch). Maent yn fwy tebygol o fod wedi cael eu cyrchu trwy ffynonellau data Llywodraeth Cymru (56 y cant). Roedd ychydig yn llai na hanner y grŵp yma (46 y cant) mewn swyddi cyflogedig cyn cychwyn eu busnes.

Nodweddir y grŵp yma gan beth y maent am ei gyflawni ar gyfer pobl eraill yn hytrach nac ar eu cyfer nhw eu hunain, gyda 38 y cant yn awyddus i gychwyn busnes er mwyn mynd i'r afael â phroblem gymdeithasol neu er mwyn cynorthwyo eu cymuned. Clustnododd pedwar o bob pump (81 y cant) eu prif reswm dros gychwyn busnes fel 'bod eisiau wneud gwahaniaeth'. Nhw yw'r lleiaf tebygol o holl grwpiau segment y farchnad o gael eu sbarduno gan yr awydd i fod yn fos arnyn nhw eu hunain (38 y cant). Nhw hefyd yw'r lleiaf tebygol o feddwl taw rhedeg busnes yw'r peth y maent wedi bod am ei wneud erioed, neu i hyn fod yn uchelgais tymor hir iddynt, ond nid ydynt yn groes i'w hystyried eu hunain fel 'entrepreneuriaid'. Nhw yw'r lleiaf tebygol, ar gyfradd o 38 y cant (ynghyd â'r Anturwyr Chwilfrydig) o ddweud taw eu rheswm dros gychwyn busnes oedd diffyg swyddi o safon â chyflog da, a nhw yw'r lleiaf tebygol o'r holl grwpiau, ar gyfradd o 13 y cant, o'i chael hi'n anodd dod o hyd i swydd. Nhw yw'r mwyaf tebygol o holl grwpiau segment y farchnad o ystyried taw 'rhedeg busnes' yw'r hyn y maent yn ei wneud (94 y cant).

Mae bod yn hunangyflogedig yn bwysig i'r grŵp yma (75 y cant) i'w galluogi i fyw lle maen nhw eisiau byw. Nhw yw'r lleiaf tebygol o fod yn gweithredu mewn ardaloedd gwledig anghysbell iawn (nid oedd yr un ohonynt yn gweithio mewn ardal wledig anghysbell) a nhw oedd y mwyaf tebygol o holl grwpiau segment y farchnad (25 y cant) o fod yn gwasanaethu marchnadoedd rhyngwladol.

Eu prif bryderon am gychwyn busnes yw bod yn gallu 'ennill cyflog', ar gyfradd o 31 y cant, wedyn cael cwsmeriaid/gwerthu ar gyfradd o 25 y cant. O holl grwpiau segment y farchnad, nhw sy'n poeni'r lleiaf am wneud colled ariannol (6 y cant), a nhw yw'r lleiaf tebygol o fod wedi buddsoddi eu cynilion eu hunain yn eu menter (dim ond 56 y cant oedd wedi gwneud hynny). Mae'r Arloeswyr Cymdeithasol yn dueddol o wynebu mwy o rwystrau na'r grwpiau eraill wrth gychwyn busnes (cwta 13 y cant a ddywedodd nad oeddent wedi wynebu unrhyw rwystrau). Eu prif rwystr i gychwyn busnes yw diffyg cyllid personol i'w fuddsoddi yn eu menter - mae'r Arloeswyr Cymdeithasol yn fwy tebygol o lawer na grwpiau segment eraill o'r farchnad o glustnodi hyn fel rhwystr (31 y cant).

Mae'r Arloeswyr Cymdeithasol yn fwy tebygol na grwpiau eraill o fod wedi cael cymorth cynghorydd busnes (50 y cant) a chan eu teuluoedd (44 y cant), ac maent yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a gawsant.

Nhw yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o ystyried bod person penodol wedi eu hysbrydoli yn eu busnes (63 y cant) ac maent yn dueddol o glustnodi amrywiaeth eang o ddylanwadau busnes yn y cyddestun hwn. Nhw yw'r mwyaf tebygol o'r grwpiau (ar lefel o 50 y cant) o feddwl bod eu haddysg wedi dylanwadu'n sylweddol ar eu dymuniad i gychwyn a rhedeg eu busnesau eu hunain.

Mae'r grŵp yma'n dueddol o ffeindio rhedeg busnes yn fwy o straen na'r gweddill. Yn nodweddiadol, maent yn ymrwymo oriau hir iawn i'w busnesau (mae 56 y cant yn ymrwymo oriau hir iawn i'w busnes) a nhw sydd lleiaf tebygol o feddwl bod rhedeg busnes yn rhoi'r rhyddid iddynt wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Mae'r Arloeswyr Cymdeithasol yn cael eu sbarduno gan yr angen i fynd i'r afael â phroblem gymdeithasol neu i gynorthwyo eu cymuned: dewisodd 81 y cant y datganiad 'Roeddwn i eisiau wneud gwahaniaeth' fel yr un oedd yn disgrifio orau eu penderfyniad i gychwyn busnes. Yn aml maent yn cael eu sbarduno gan eu creadigrwydd hefyd, ac maent am fanteisio i'r eithaf ar syniad da: mae 92 y cant yn credu bod rhedeg busnes yn caniatáu iddynt ddefnyddio eu dawn a'u creadigrwydd. Mae nifer llethol ohonynt 'eisiau wneud gwahaniaeth' ac mae rhedeg busnes yn eu cynorthwyo i deimlo eu bod nhw'n cyfrannu rhywbeth nôl at y gymuned: roedd pawb a arolygwyd yn cytuno bod rhedeg busnes yn gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cyfrannu rhywbeth nôl at y gymuned. Mae diwallu anghenion cwsmeriaid yn bwysig i'r grŵp yma: Yr Arloeswyr Cymdeithasol yw'r grŵp mwyaf tebygol o bell ffordd o ddweud eu bod yn mwynhau'r agwedd yma ar eu busnes, ar gyfradd o 46 y cant.

O ran arian, mae'r Arloeswyr Cymdeithasol yn hapus i wneud bywoliaeth gyffyrddus: ennill cyflog yw eu prif ofn adeg cychwyn y busnes, gyda 31 y cant yn dweud bod hyn yn bryder, wedyn pryderon am gael cwsmeriaid (25 y cant) ac ofn yr anhysbys (19 y cant), ofn methu (19 y cant) ac ofn peidio â bod â'r sgiliau neu'r profiad cywir (19 y cant). Nhw yw'r mwyaf tebygol ond un, ar gyfradd o 77 y cant (ar ôl yr Anturwyr Chwilfrydig) o fod yn ddibynnol ar eu busnes fel eu prif ffynhonnell incwm.

Mae'r Arloeswyr Cymdeithasol yn weddol uchelgeisiol o ran eu busnes, gyda thri chwarter (75 y cant) yn dymuno tyfu'r busnes gymaint â phosibl a chyflogi gweithwyr (neu rhagor o weithwyr) yn y tymor canolig. Mae rhai ohonynt eisoes yn grŵp uchelgeisiol yn nhermau nifer y gweithwyr sydd ganddynt: er nad yw 46 y cant yn cyflogi neb arall, mae dros draean ohonynt (38 y cant) yn cyflogi pump neu ragor o weithwyr.

Sefydlodd yr Arloeswr Cymdeithasol AC ei fusnes yn 18 oed er mwyn darparu gwasanaethau aml-chwaraeon proffesiynol ar gyfer pobl ifanc dros 7 oed, gyda ffocws ar helpu pobl ifanc i fod yn egniol. Cafodd ei sbarduno gan ddymuniad i ffrwyno ei angerdd ei hun at chwaraeon er mwyn helpu pobl ifanc i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chreu hwyl a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc yn ei gymuned. Gan dynnu ar ei brofiadau anodd ei hun yn yr ysgol, roedd yn awyddus i ddefnyddio ei gariad at chwaraeon a'i sgiliau hyfforddi er budd pobl eraill a oedd yn wynebu sialensiau tebyg: 'Roedd gen i ddyslecsia ac ADHD yn yr ysgol, ac felly rwy'n credu hwyrach i mi gael fy sbarduno i helpu pobl eraill, nad ydynt yn academaidd eu natur efallai, i ffeindio ffordd arall o ddefnyddio'u sgiliau a'u hegni'.

Mae'r busnes wedi esblygu ers i AC ei gychwyn fel menter ar raddfa weddol fach pan oedd yn dilyn cwrs peirianeg trydan mewn coleg addysg bellach. Ynghyd â ffrind, dechreuodd AC redeg ambell i ddosbarth chwaraeon mewn clwb lleol, ac ar ôl ffurfio'r busnes fel menter gymdeithasol, cawsant ychydig o gymorth ariannol gan Live UnLtd. Bu'r fenter gymdeithasol yn gweithredu am gyfnod o flwyddyn cyn ei dirwyn i ben. Yn 19 oed, sefydlodd ail fusnes a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu dosbarthiadau Parkour⁷ mewn ysgolion a chanolfannau cymuned, ac yn ystod y cyfnod hwn, llwyddodd i gael cymhwyster hyfforddi lefel 2. Cyn pen dim, bu modd iddo gyflogi hyfforddwr ychwanegol, am eu bod yn rhedeg tua 20 o ddosbarthiadau chwaraeon.

Mae'r Arloeswr Cymdeithasol AC wedi llwyddo i gael cymorth gan Live UnLtd a Syniadau Mawr Cymru, ac roedd yn teimlo bod cymorth Syniadau Mawr Cymru yn arbennig o ddefnyddiol wrth

⁷ Disgyblaeth hyfforddi sy'n defnyddio symudiad a ddatblygwyd o hyfforddiant cyrsiau rhwystrau milwrol yw Parkour. Mae'n cynnwys gweithgareddau fel rhedeg, dringo, siglo, llamu, neidio a rholio.

ddatblygu rhwydwaith o gysylltiadau defnyddiol. Mae e wedi cael cymorth ar faterion busnes a chynllunio ariannol hefyd er mwyn mynd i'r afael â'i wendidau yn nhermau gwybodaeth ariannol a chyfreithiol.

Mae'r busnes wedi tyfu'n sylweddol dros y cyfnod o chwe blynedd ers iddo gael ei sefydlu'n wreiddiol. Erbyn hyn mae'n cyflogi saith, ac yn cynnal 53 o hyfforddwyr pellach dan is-gontractau ledled y DU. Mae'r Arloeswr Cymdeithasol AC wedi buddsoddi mewn lleoliad chwaraeon ac wedi ennill contractau gydag awdurdodau lleol ac ysgolion ar draws Cymru i gyflwyno darpariaeth chwaraeon. Mae'r busnes wedi ehangu allan i ddarparu gwasanaethau tebyg eraill hefyd.

Mae'r Arloeswr Cymdeithasol AC wedi bod am weithio dros ei hunan erioed ac mae'n cael ei sbarduno gan y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i'w gleientiaid: 'Pan welwch chi berson ifanc a oedd yn arfer bod yn hollol ddihyder yn troi rownd ac yn gwneud trosben gefn yn sydyn, ry'ch chi'n sylweddoli faint o wahaniaeth y gallwch ei gwneud. Dyna sy'n fy nghymell, yn ogystal â gweld fy hyfforddwyr yn gwneud eu gwaith yn dda ac yn mwynhau'.

4.6 Mentrwyr Lleol

Priodoleddau allweddol: Unig fasnachwyr hunangyflogedig sydd wedi ymbaratoi'n dda ac sy'n gymedrol o uchelgeisiol sy'n rhedeg busnesau bach lleol, sy'n cael eu gyrru gan yr angen i sicrhau statws cymdeithasol.

Y Mentrwyr Lleol yw'r grŵp lleiaf, sef saith y cant o'r sampl. Y bobl hyn sydd fwyaf tebygol o ystyried eu bod yn berchnogion busnes hunangyflogedig (73 y cant), yn hytrach nac entrepreneuriaid. Maen nhw'n hoffi gweithio drostyn nhw eu hunain, a hynny'n bennaf yn rhedeg busnesau bach lleol, yn aml ar eu pennau eu hunain. Nid yw saith o bob deg ohonynt (70 y cant) yn cyflogi neb arall, ac o'r rheiny ohonynt sydd yn cyflogi rhywun arall, mae nifer eu gweithwyr yn fach.

Yn nhermau eu proffil demograffaid, mae'r Mentrwyr Lleol ychydig bach yn fwy tebygol o fod yn wrywaidd - mae tri chwarter (73 y cant) yn ddynion, a chwarter (27 y cant) ohonynt yn fenywod. Maen nhw'n annhebygol o fod yn ifanc iawn, gydag 18 y cant yn perthyn i'r grŵp oedran 16 i 21 oed, 36 y cant yn 22 i 24 oed, a 45 y cant dros 25 oed. Mae'r Mentrwyr Lleol yn fwy tebygol hefyd o fod wedi cael eu cyrchu trwy ffynonellau data heblaw Llywodraeth Cymru (55 y cant) a nhw sydd fwyaf tebygol o ddangos trawstoriad o grwpiau ethnig (roedd 82 y cant o grŵp ethnig gwyn). Y Mentrwyr Lleol

hefyd yw'r lleiaf tebygol o fod yn gweithio mewn, neu ar gyrion dinas (naw y cant) ac mae dros hanner ohonynt (55 y cant) yn gweithio mewn, neu ar gyrion tref fawr.

I raddau helaeth, busnesau un person yw'r Mentrwyr Lleol, a nhw yw'r mwyaf tebygol o wasanaethu eu tref neu gymuned leol yn uniongyrchol (45 y cant). Nid oes neb ohonynt yn gwasanaethu marchnadoedd rhyngwladol.

Yn nhermau eu siwrnai i hunangyflogaeth, nhw sydd fwyaf tebygol (ynghyd â'r Chwilotwyr Rhyddid) o fod wedi bod mewn swydd gyflogedig lawn-amser (60 y cant).

Nhw yw'r mwyaf tebygol (80 y cant) o fod wedi cychwyn eu busnes o fewn y flwyddyn ddiwethaf, a nhw yw'r lleiaf tebygol (90 y cant) o feddwl y byddai wedi bod yn bosibl iddynt fod wedi lleihau hyd yr amser y cymerodd iddynt gychwyn busnes, sy'n awgrymu bod y grŵp yma'n cyflawni'r siwrnai i fusnes yn weddol gyflym. Mae eu prif bryder wrth gychwyn busnes yn ymwneud â chael cwsmeriaid a gwerthu, gyda 36 y cant yn dweud hyn (maent yn fwy tebygol na grwpiau segment eraill o enwi hyn fel pryder). Mae'r Mentrwyr Lleol yn poeni'n fwy hefyd na grwpiau eraill am fod â rhy ychydig o gyllid i gychwyn busnes (18 y cant) ac maent yn dibynnu ar eu cynilion eu hunain i ariannu cychwyn y busnes: roedd 64 y cant yn disgwyl ariannu, neu wedi ariannu, cychwyn eu busnes gan ddefnyddio eu cynilion eu hunain. Mae pedwar o bob pump (80 y cant) yn ystyried taw eu busnes yw eu prif ffynhonnell incwm.

Ar y cyfan, nhw yw'r grŵp sy'n wynebu'r nifer leiaf o rwystrau wrth gychwyn busnes (nid oedd 45 y cant wedi wynebu unrhyw rwystrau penodol wrth gychwyn busnes) a nhw, o bell ffordd, yw'r mwyaf parod i wneud hynny (91 y cant). Maen nhw'n eu gweld eu hunain fel y rhai sydd wedi cael y profiad gwaith perthnasol mwyaf cyn cychwyn, gyda 64 y cant yn mynegi'r safbwynt eu bod wedi cael profiad gwaith perthnasol sylweddol. Ar y cyfan, maent wedi troi at ffrindiau neu gydweithwyr (45 y cant) am gymorth wrth gychwyn busnes, a nhw yw'r lleiaf tebygol o fod wedi cael cymorth gan gynghorydd busnes (9 y cant). Nhw yw'r mwyaf tebygol o deimlo bod person busnes lleol wedi bod yn ysbrydoliaeth fusnes iddynt.

Mae'r Mentrwyr Lleol yn chwilio am statws cymdeithasol trwy eu busnes, a'r gallu i ennill mwy nag y byddent yn ei ennill mewn swydd gyflogedig fel arall. Nid arian yw'r cyfan i lawer ohonynt, ond nhw yw'r mwyaf tebygol o fod am redeg eu busnes eu hunain ac o fod yn fos ar eu hunain (100 y cant). Nhw yw'r mwyaf tebygol o deimlo bod cychwyn busnes wedi bod yn uchelgais iddynt erioed (100 y cant), er nad ydynt o reidrwydd yn teimlo eu bod yn entrepreneuriaid (64 y cant). Nid ydynt wedi cael

eu sbarduno i redeg eu busnesau eu hunain gan anawsterau wrth ddod o hyd i waith (dim ond 18 y cant oedd wedi cael eu sbarduno felly), ond nhw yw'r mwyaf ansicr o ran a yw gweithio drostyn nhw eu hunain wir yn well na swydd gyflogedig.

Nhw yw'r grŵp sydd dan y straen lleiaf, er taw nhw yw'r mwyaf tebygol o ymrwymo oriau hir iawn i'r hyn y maent yn ei wneud (er enghraifft, cwta 20 y cant sy'n ystyried eu bod wedi eu gorlethu â gwaith a dan straen, er bod 80 y cant yn ymrwymo oriau hir iawn i'r busnes). Nhw yw'r lleiaf tebygol o feddwl bod rhedeg busnes yn caniatáu iddynt gael teimlad o bwrpas (40 y cant) neu ddefnyddio eu talent a'u creadigrwydd (60 y cant).

Yn nhermau eu dyheadau at y dyfodol, mae ganddynt gynlluniau gweddol gymedrol i dyfu eu busnes, gyda 64 y cant am dyfu eu busnes cymaint â phosibl a chyflogi gweithwyr (neu rhagor o weithwyr). Diddorol yw nodi taw nhw yw'r mwyaf tebygol o fod am gychwyn busnes arall yn y tymor canolig, gyda 27 y cant yn ystyried cychwyn busnes arall yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Mentrwr Lleol LS yn dangos nifer o briodoleddau'r Mentrwyr Lleol. Sefydlodd ei busnes caffi ei hun ym mis Mawrth 2017, ac ers graddio, mae hi wedi cael profiad helaeth yn y sector arlwyio wrth reoli caffi arall yn yr un dref glan môr, ac am iddi weithio mewn sefydliadau arlwyio eraill yn y gorffennol.

Cymerodd y broses gynllunio ar gyfer cychwyn y busnes ryw naw mis i gyd oherwydd yr angen am drefnu prydles ar adeilad y caffi, ac am negodi newid defnydd yr adeilad gyda'r awdurdod cynllunio. Mae LS yn gweithio oriau hir iawn o fewn y busnes - hyd at ryw 90 awr yr wythnos, a hynny'n bennaf am fod y caffi'n agored am ryw 12 awr y dydd yn ystod misoedd yr haf. Hi yw unig berchennog y busnes, ac mae'n cyflogi hyd at saith o bobl yn ystod cyfnod prysur y tymor twristiaeth. Yn ogystal â chyfleusterau'r caffi, sy'n gwasanaethu'r ardal leol, mae'r busnes yn cael incwm gan wasanaethau eraill hefyd, gan gynnwys arlwyio ar gyfer achlysuron. Nid yw LS yn codi unrhyw incwm o'r busnes ar hyn o bryd am nad yw'r gwaith yn broffidiol hyd yn hyn oherwydd yr angen am fuddsoddi er mwyn ailwampio'r caffi. Fodd bynnag, mae hi'n hyderus y bydd y caffi'n cynhyrchu elw dros amser, ac y bydd yn gallu codi incwm rhesymol o'r busnes.

Mae'r broses o gychwyn y busnes wedi achosi rhwystredigaeth am iddi gymryd mwy o amser nag y byddai wedi hoffi, a hynny i raddau helaeth oherwydd anawsterau wrth ddod o hyd i adeilad addas, cyflwyno cais cynllunio ar gyfer newid defnydd, diogelu buddsoddiad a chyflawni gwaith adfer ar y

caffi o dan reoliadau tynn. Wrth edrych nôl, roedd LS yn teimlo ei bod wedi ymadael â'i swydd gyflogedig flaenorol yn rhy gynnar am nad oedd wedi sylweddoli y byddai'r broses o gychwyn busnes wedi cymryd mor hir, gan ei gadael yn ddi-waith am ryw chwe mis i gyd.

Mae LS wedi llwyddo i gael benthyciad busnes i ariannu cychwyn a rhedeg y busnes, ynghyd ag ychydig o gymorth ariannol gan berthnasau. Mae hi wedi cael cymorth hefyd gan gynghorydd Busnes Cymru a rhoddodd gyngor iddi ar wneud cais am fenthyciad a chymorth ar agweddau ar gynllunio cyllid y busnes.

Mae LS wedi bod am redeg ei busnes ei hun a bod yn fos arni hi ei hun erioed ers iddi reoli caffis ar gyfer pobl eraill ers nifer o flynyddoedd. Yn benodol, mae hi'n mwynhau peidio â gorfod ateb i neb arall, ond mae hi'n mwynhau natur ymarferol rhedeg y caffi o ddydd i ddydd hefyd. Mae hi'n awyddus i daro gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith iddi hi ei hun o ystyried na all barhau i weithio nifer yr oriau y mae'n ei rhoi i'r busnes ar hyn o bryd yn y tymor hir.

Atodiad A Holiadur yr Arolwg Ffôn

Bore da/P'nawn da.

Fy enw i yw <NAME> o gwmni Ymchwil Beaufort. Yr ydym yn cynnal ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru ar brofiadau pobl ifanc sydd naill ai'n ystyried neu sydd wedi cychwyn busnes eu hunain yn ddiweddar.

**[As appropriate] Cafodd eich manylion eu darparu inni gan Welsh Government\Name of Partner Organisation].

Hoffwn ofyn rhai cwestiynau ichi am eich siwrnai i gychwyn busnes. A fyddai nawr yn amser da? Ni ddylai gymryd mwy na 10-15 munud o'ch amser ar y mwyaf.

Bydd eich atebion yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol. Mae'r ymchwil yn cael ei gynnal yn unol â Chod Ymddygiad MRS.

Fe ddefnyddir eich barn a'ch profiadau i wella'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl ifanc yn y dyfodol.

Adran 1 Cwestiynau Cymhwyster

ASK ALL

Yn gyntaf, gai ofyn beth yw eich oedran?

SINGLE CODE

O dan 16;16;17;18;19;20;21;22;23;24;25;26;27;28;29;

[If respondent is 30 or older: Thank respondent for their time and note that the survey is focused on obtaining feedback from those aged under 30]

ASK ALL

Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi ystyried cychwyn neu wedi cychwyn busnes eich hun?

SINGLE CODE

Ydw, wedi ystyried

Ydw, wedi cychwyn

Dim un o'r rhain

ASK IF 'NEITHER' IN LAST 12 MONTHS

Yn y 2-3 blynedd ddiwethaf, a ydych chi wedi ystyried cychwyn neu wedi cychwyn busnes eich hun?

SINGLE CODE

Ydw, wedi ystyried[CLOSE]

Ydw, wedi cychwyn

Dim un o'r rhain [CLOSE]

[If only 'Yes, considered' or 'Neither' in last 2-3 years : Thank respondent for their time and clarify purpose of survey is to capture feedback from those considering or have started their business recently]

Adran 2 Sefyllfa Gyfredol a Phroffil y Busnes

ASK IF 'YES, CONSIDERED IN LAST 12 MONTHS'

2.1a Yn gyntaf, a allwch ddweud wrthyf ar ba gam o'r siwrnai i gychwyn busnes yr ydych chi ar hyn o bryd?

MULTI CODE

- Rwyf wedi ei ystyried
- Rwyf wedi gwneud ychydig o ymchwil a chynllunio cychwynnol
- Rwyf wedi mynd ati i gynllunio cychwyn
- Rwyf yn gweithio ar fy syniadau busnes ond mae angen imi gwblhau fy addysg
- Rwyf yn gweithio ar fy syniadau busnes ond dwi hefyd yn gweithio / mewn cyflogaeth
- Rwyf yn profi fy syniad busnes ond nid wyf yn ystyried fy mod wedi cychwyn mewn busnes eto
- Nid wyf bellach yn ystyried nac yn cynllunio cychwyn busnes yn y dyfodol agos
- Cefais brofiad gwael / nid oes bellach gennyf ddiddordeb

- i) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

ASK IF 'STARTED IN LAST 12 MONTHS OR LAST 2-3 YEARS'

2.1b Yn gyntaf, a allwch ddweud wrthyf ar ba gam o'r siwrnai i gychwyn busnes yr ydych chi ar hyn o bryd?

SINGLE CODE

- a) Rwyf wedi cychwyn busnes o fewn y flwyddyn ddiwethaf
- b) Rwyf yn rhedeg busnes sefydledig (ers mwy nag un flwyddyn)
- c) Nid wyf bellach yn rhedeg busnes (ond wedi gwneud yn y blynyddoedd diwethaf)
- d) Nid wyf bellach yn ystyried nac yn cynllunio cychwyn busnes yn y dyfodol agos
- e) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

ASK IF 'CONSIDERED IN LAST 12 MONTHS' OR CURRENTLY RUNNING A BUSINESS

2.2 Pa rai o'r canlynol sydd yn disgrifio beth fydddech yn dymuno/ydych yn ei wneud?

MULTICODE

- a) Rhedeg busnes
- b) Bod yn hunangyflogedig
- c) Gwneud gwaith llawrydd
- d) Gwneud gwaith is-gontractio
- e) Gweithio mewn 'trade'
- f) Gweithio i fi fy hun
- g) Gwneud arian o hobi
- h) Mewn busnes ac mewn addysg
- i) Prawf-fasnachu (test trading) neu mewn busnes a hefyd yn gweithio'n rhan amser
- j) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

ASK IF CURRENTLY RUNNING A BUSINESS

2.3 Allwch chi gadarnhau os yw eich busnes yn masnachu o hyd?

[Golyga masnachu bod y busnes wedi ennill incwm drwy werthu nwyddau neu wasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf]

- a) Ydy
- b) Nac ydy

2.3a Os na, 2.3a A yw'r busnes erioed wedi masnachu?

- a) Ydy
- b) Nac ydy

2.3b Os na, A fydddech yn dweud eich bod yn y broses o wneud y cam i hunangyflogaeth?

- a) Ydy
- b) Nac ydy

ASK IF 'CONSIDERED IN LAST 12 MONTHS' OR CURRENTLY RUNNING A BUSINESS

2.4 Beth yw natur eich busnes (arfaethedig)?

WRITE IN

If 2.3=YES For those who are currently trading

2.5 Heblaw amdanoch chi, faint o bobl yr ydych yn eu cyflogi?

{Dylai'r rhain fod ar y gyflogres} WRITE IN

If 2.3=YES For those who are currently trading

2.7 Ai'r busnes yw eich prif ffynhonnell incwm?

SINGLE CODE

- a) Ydy
- b) Nac ydy

2.7a If no, Beth yw eich prif ffynhonnell incwm?

MULTI CODE

- a) Swydd gyflogedig arall
- b) Budd-daliadau lles
- c) Incwm partner
- d) Cymorth rhieni

- e) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

ASK IF 'CONSIDERED IN LAST 12 MONTHS' OR CURRENTLY RUNNING A BUSINESS

2.8 Pa rai o'r canlynol sydd yn disgrifio orau'r farchnad mae eich busnes yn mynd i'w gwasanaethu/yn ei gwasanaethu?

SINGLE CODE

- a) Tref neu gymuned leol yn bennaf
- b) Yr awdurdod lleol yn bennaf
- c) Y rhanbarth yn bennaf
- d) O fewn Cymru yn bennaf
- e) Y Deyrnas Unedig yn bennaf
- f) Y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol
- g) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

If 2.3=YES For those who are currently trading

2.9 Beth oeddech yn ei wneud yn bennaf yn ystod y flwyddyn cyn ichi gychwyn eich busnes:

SINGLE CODE

- a) Roeddwn yn gyflogedig (llawn amser)
- b) Roedd gennyf nifer o swyddi rhan-amser (tan-gyflogedig)
- c) Roeddwn yn yr ysgol
- d) Roeddwn yn astudio mewn coleg
- e) Roeddwn yn astudio mewn prifysgol
- f) Roeddwn ar flwyddyn i ffwrdd(gap year)
- g) Roeddwn yn hunangyflogedig
- h) Roeddwn yn ddi-waith
- i) Roeddwn yn derbyn budd-daliadau lles
- j) Roeddwn yn gwirfoddoli
- k) Roeddwn yn gofalu am aelodau o'r teulu
- l) Arall

If 2.3=NO For those who are not currently trading

2.10 Beth ydych yn ei wneud o ran gwaith ar hyn o bryd?

SINGLE CODE

- a) Rwy'n gyflogedig (llawn amser)
- b) Mae gennyf nifer o swyddi rhan-amser (tan-gyflogedig)
- c) Rwyf yn yr ysgol
- d) Rwy'n astudio mewn coleg
- e) Rwy'n astudio mewn prifysgol
- f) Rwyf ar flwyddyn i ffwrdd(gap year)
- g) Rwyf yn derbyn budd-daliadau lles
- h) Rwy'n gwirfoddoli
- i) Rwy'n gofalu am aelodau o'r teulu
- j) Arall

Adran 3: Y siwrnai i gychwyn busnes

If 2.1b = (a,b,c) For those who are running a business/have done so:

Q3.1 Pryd wnaethoch chi gychwyn y busnes?

[Gofynnwch am ddyddiad cofrestru neu ddyddiad cychwyn masnachu] YSGRIFENNWCH Y MIS A'R FLWYDDYN

3.2 O edrych yn ôl, sut fydddech chi'n disgrifio eich siwrnai i gychwyn mewn busnes? WRITE IN

Os fydd angen cynigwch e.e. cychwyn yn araf, roedd llwybr clir mewn lle, cychwynnais o hobi

3.3 Beth yw/oedd eich prif bryderon ynghylch cychwyn eich busnes?

PEIDIWCH A CHYNNIG. MULTICODE

- a) Ofn yr anhysbys
- b) Diffyg hyder yn fy ngallu fy hun
- c) Ofn methu
- d) Sicrhau cleientiaid neu werthu
- e) Gwneud colled ariannol
- f) Ennill cyflog
- g) Ildio diogelwch incwm rheolaidd o swydd sydd gennych
- h) Ildio diogelwch incwm rheolaidd o fudd-daliadau lles
- i) Heb fod a'r sgiliau neu'r profiad angenrheidiol i redeg busnes
- j) Diffyg cymorth teuluol
- k) Pryderon ynghylch cydbwysedd bywyd a gwaith
- l) Doedd gennyf ddim unrhyw bryderon
- m) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

3.4 Pa rwystrau y gwnaethoch/yr ydych yn eu hwynebu wrth geisio cychwyn mewn busnes?**PEIDIWCH A CHYNNIG. MULTICODE**

- a) Delio ag agweddau negyddol pobl eraill tuag at eich cynlluniau
- b) Diffyg sgiliau busnes perthnasol
- c) Diffyg gwybodaeth busnes – sut i reoli cyllid ayb
- d) Diffyg profiad gwaith blaenorol mewn busnes
- e) Diffyg cyllid personol i fuddsoddi yn y busnes
- f) Anawsterau cael hyd i gyllid o fannau eraill (e.e. banciau, teulu ayb)
- g) Anawsterau cael hyd i gymorth busnes / mentora
- h) Diffyg rhwydweithiau defnyddiol
- i) Diffyg adeilad priodol
- j) Dim rhwystrau penodol wedi eu hwynebu
- k) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

3.5 Pa mor dda yr oeddech/yr ydych wedi paratoi i gychwyn a rhedeg eich busnes?**SINGLE CODE**

- a) Wedi paratoi'n dda iawn
- b) Wedi paratoi yn weddol dda
- c) Heb baratoi yn arbennig o dda
- d) Heb baratoi o gwbl
- e) Ddim yn gwybod

3.6 Sut wnaethoch/ydych yn disgwyl ariannu cychwyn eich busnes?**MULTI CODE**

- a) Cynilion eich hunain
- b) Benthyciad banc neu orddrafft
- c) Buddsoddiad wrth deulu a/neu ffrindiau
- d) Grant busnes
- e) Ariannu torfol (Crowd-funding)
- f) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

3.7 A wnaethoch lwyddo i godi/a ydych yn disgwyl codi'r gyllideb angenrheidiol ar gyfer cychwyn y busnes?

- a) Ydy
- b) Nac ydy
- c) Ddim yn gwybod

If no, **Pa anawsterau a wnaethoch eu hwynebu/yr ydych yn disgwyl eu hwynebu wrth godi'r gyllideb angenrheidiol?** WRITE IN

3.8 Heblaw am gymorth ariannol, a wnaethoch chi dderbyn/a ydych yn derbyn unrhyw gefnogaeth neu gyngor arall yn ystod y broses o gychwyn y busnes oddi wrth unrhyw un o'r canlynol?**LIST AND NOTE YES/NO TO EACH ONE**

- a) cynghorydd busnes
- b) mentor

- c) cyfrifydd
- d) aelodau o'r teulu
- e) ffrindiau neu gydweithwyr
- f) neb arall
- g) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

ASK IF SUPPORT RECEIVED AT Q3.8

3.9 I ba raddau y gwnaeth y cyngor a'r gefnogaeth ichi ei dderbyn gwrdd â'ch anghenion/mae'r gefnogaeth a'r cyngor yr ydych yn ei dderbyn yn cwrdd â'ch anghenion?

- a) I raddau helaeth
- b) I ryw raddau
- c) I ddim graddau
- d) Ddim yn gwybod

ASK IF Q3.8= a or b

3.10 Gan ystyried y gefnogaeth a'r cyngor a gawsoch wrth gynghorydd busnes / mentor, sut glywsoch chi am y cymorth hwn?

MULTI CODE

- a) Wrth ffrindiau neu deulu
- b) Wrth staff coleg neu brifysgol
- c) Cyfeiriwyd gan sefydliad arall
- d) Ymchwil eich hunan
- e) Gweld deunyddiau hyrwyddo
- f) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

3.11 Sut fyddai'n well gennych fel arfer cael gwybod am unrhyw gymorth i fusnesau a allai fod ar gael i chi?

[MULTICODE]

- a) Gwybodaeth ar y we
- b) Gwybodaeth drwy e-bost
- c) Diweddariadau cyfryngau cymdeithasol
- d) Gweithdai neu ddigwyddiadau lleol
- e) Drwy gynghorydd busnes pwrpasol
- f) Drwy rwydwaith o entrepreneuriaid
- g) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

3.12 Gan feddwl am yr amser y cymerodd/mae'n cymryd ichi wneud y cam i redeg eich busnes, tua pha mor hir:

- **Y cymerodd hi/yr ydych yn disgwyl y bydd yn cymryd ichi gychwyn y busnes o'r pwynt cyntaf ichi ystyried y syniad o weithio ichi eich hun?** [Nodwch blynnyddoedd/misoedd]
- **O fewn yr amser yma, pa mor hir y gwnaethoch/y gwnewch ei wario ar ymchwilio a chynllunio eich syniad busnes?** Yr ydym yn meddwl am weithgareddau fel ymchwilio i'r farchnad, dod o hyd i adeilad, prynu stoc, cael hyd i gwsmeriaid ayb) [Nodwch blynnyddoedd/misoedd]

3.13 Faint o brofiad gwaith perthnasol fyddech chi'n dweud sydd gennych/oedd gennych cyn cychwyn busnes?

- a) Profiad sylweddol
- b) Rhywfaint o brofiad
- c) Prin unrhyw brofiad
- d) Dim profiad o gwbl
- e) Ddim yn gwybod

ASK IF 'STARTED IN LAST 12 MONTHS OR LAST 2-3 YEARS'

3.14 A ydych yn credu y byddai wedi bod yn bosib lleihau'r cyfnod o amser a gymerodd hi ichi gychwyn y busnes o gwbl?

READ OUT:

- Ydy
- O bosib
- Nac ydy
- Ansicr
- Fy newis i oedd hi

IF YES OR POSSIBLY, Beth, os o gwbl, fyddai wedi eich galluogi i gychwyn y busnes dros gyfnod byrrach o amser?

WRITE IN

IF YES OR POSSIBLY, Pa gymorth, os o gwbl, fydddech chi wedi ei werthfawrogi er mwyn cychwyn y busnes mewn cyfnod byrrach o amser?

WRITE IN

ASK IF 'STARTED IN LAST 12 MONTHS OR LAST 2-3 YEARS'

3.16 Petai modd ichi gael eich amser eto – pa gyngor fydddech chi yn ei roi i'ch hunan? WRITE IN

Adran 4: Sbardunau

4.1 Pam oeddech chi eisiau cychwyn busnes eich hunan?

[DO NOT PROMPT. MUTLICODE]

- a) I fod yn 'fos' arnaf fi fy hun
- b) I gael mwy o ryddid
- c) I gael gwell balans rhwng gwaith a bywyd
- d) I ennill mwy o arian fel prif swydd
- e) I fod yn greadigol ac i wneud yn fawr o syniad da
- f) I osgoi fod yn ddi-waith
- g) I adael lle gweithio gwael
- h) I wneud rhywbeth diddorol yn fy amser rhydd
- i) I ddilyn ôl traed fy nheulu
- j) I ychwanegu at gyflog dwi'n ei dderbyn o swydd arall
- k) I fynd i'r afael a phroblemau cymdeithasol/cefnogi fy nghymuned
- l) I ennill statws cymdeithasol
- m) I weithio o adre/yn agosach at adre
- n) I sicrhau mwy o hyblygrwydd i fedru edrych ar ôl teulu/plant
- o) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

4.2 A ph'run o'r datganiadau isod fydddech yn dweud sy'n disgrifio orau eich penderfyniad i gychwyn busnes/i fod eisiau cychwyn busnes? [SELECT ONE]

- a) Rwyf erioed wedi gwybod mai dyna oeddwn eisiau ei wneud
- b) Dyna sy'n arferol ar gyfer fy mhroffesiwn/gyrfa
- c) Yr oeddwn eisiau gwneud gwahaniaeth
- d) Gwelais gyfle neu fe roddwyd cyfle imi
- e) Rwyf yn mwynhau gweithio ar hobi / eisiau gweithio yn rhan amser
- f) Cefais fy ysbrydoli gan deulu neu ddylanwadau eraill megis addysg fenter

4.3 A fydddech yn dweud bod eich rhesymau am gychwyn busnes wedi bod yn/yn bennaf yn rhai o anghenraid neu yn oportiwnistaidd?

SINGLE CODE

- a) Anghenraid
- b) Oportiwnistaidd
- c) Dim un o'r rhain

- d) Y ddau
- e) Ddim yn gwybod

4.4 I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol am y rhesymau ichi gychwyn busnes:

[Score as Cytuno'n Llwr, Cytuno'n Rhannol, Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno, Anghytuno'n Rhannol, Anghytuno'n Llwr, Ddim yn Gwybod]

- a. Roedd/mae diffyg swyddi â chyflogau da ar gael
- b. Roeddwn/rydw i'n ei chael yn anodd cael swydd
- c. Sylwais ar gyfle busnes da
- d. Roeddwn/rydw i am fod yn fos arnaf fi fy hun
- e. Mae rhedeg busnes wedi bod yn uchelgais imi erioed
- f. Rwyf wedi ystyried fy hun yn entrepreneur erioed
- g. Mae bod yn hunangyflogedig yn gyffredin yn y sector dwi'n gweithredu ynddi

4.5 Sut fydddech yn disgrifio'r ymateb a gawsoch wrth y bobl ganlynol i'ch penderfyniad i gychwyn mewn busnes?

- a. **Rhieni**
 - Cefnogol iawn
 - Gweddol gefnogol
 - Gweddol anghefnogol
 - Anghefnogol iawn
 - Ddim yn berthnasol
- b. **Partner**
 - Cefnogol iawn
 - Gweddol gefnogol
 - Gweddol anghefnogol
 - Anghefnogol iawn
 - Amherthnasol**
- c. **Ffrindiau a chyfoedion**
 - Very supportive
 - Gweddol gefnogol
 - Gweddol anghefnogol
 - Anghefnogol iawn
 - Amherthnasol**

4.6 A oes unrhyw berson penodol wedi bod yn ysbrydoliaeth busnes i chi? Gallai'r person yma fod yn rhywun y gwyddoch yn dda iawn neu entrepreneur rydych chi wedi dod ar ei draws/thraws?

- a) Oes
- b) Nac oes
- c) Ddim yn gwybod

If yes, **A yw'r person yma yn:**

MULTICODE

- a) Aelod o'ch teulu
- b) Ffrind
- c) Person busnes lleol
- d) Person busnes cenedlaethol neu ryngwladol
- e) Mentor neu gynghorydd busnes
- f) Person busnes 'enwog' ('celebrity')
- g) Athro neu ddarlithydd o fewn eich addysg
- h) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

4.7 Faint o ddylanwad fydddech chi'n dweud y cafodd eich addysg (mewn ysgol, coleg neu brifysgol) ar eich awydd i gychwyn a rhedeg eich busnes eich hun?

- a) Dylanwad sylweddol
- b) Rhywfaint o ddylanwad
- c) Dim llawer o ddylanwad
- d) Dim dylanwad o gwbl

e) Ddim yn gwybod

If a or b: **Beth yn benodol o fewn eich addysg fyddai wedi dylanwadu ar eich awydd?**

Adran 5: Agweddau a Dyheadau

ASK IF 'CONSIDERED IN LAST 12 MONTHS' OR CURRENTLY RUNNING A BUSINESS

5.1 Pa un o'r canlynol fyddai'n disgrifio orau'r amser rydych yn gweithio/rydych yn bwriadu gweithio o fewn y busnes?

SELECT ONE

- a) Mae'n rhywbeth yr wyf yn ei wneud yn fy amser rhydd
- b) Mae'n rhywbeth yr wyf yn ei wneud o fewn wythnos waith fer (gan gynnwys gweithio'n rhan amser)
- c) Mae'n rhywbeth yr wyf yn ei wneud o fewn wythnos waith llawn
- d) Mae'n rhywbeth yr wyf yn ymrwymo oriau hir iawn i wneud
- e) Dim un o'r uchod
- f) Arall

ASK IF 'CONSIDERED IN LAST 12 MONTHS' OR CURRENTLY RUNNING A BUSINESS

5.2 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich rhagolygon ariannol ar gyfer eich busnes?

SELECT ONE

- a) Fy nod yw sicrhau cymaint o arian â phosibl o'r busnes
- b) Fy nod yw gwneud bywoliaeth gyfforddus o'r busnes
- c) Mae gwneud cyflog yn bwysig imi ond mae pethau eraill yr un mor bwysig
- d) Fe fyddwn yn ymdopi'n ariannol heb yr incwm o'r busnes
- e) Credaf y bydd hi'n anodd gwneud bywoliaeth o'r busnes
- f) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

If 2.3=YES For those who are currently trading

5.3 I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol o safbwynt rhedeg eich busnes?

{For each option - cytuno'n gryf, cytûn, ddim yn cytuno nad yn anghytuno, anghytuno, anghytuno'n gryf}

- a) Teimlaf yn aml fy mod yn gorweithio ac o dan bwysau
- b) Teimlaf yn unig yn aml
- c) Mae gennyf gydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd
- d) Mae rhedeg y busnes yn eithaf di-straen
- e) Mae rhedeg y busnes yn fy ngalluogi i ddefnyddio fy nhalent a chreadigrwydd
- f) Mae rhedeg y busnes yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o foddhad imi
- g) Mae rhedeg y busnes yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o bwrpas imi
- h) Mae rhedeg y busnes yn gwneud imi deimlo fy mod yn cyfrannu rhywbeth yn ôl i'r gymuned

If 2.3=YES For those who are currently trading

5.4 Beth ydych yn ei fwynhau fwyaf am redeg busnes eich hun?

[DO NOT PROMPT] WRITE IN.

ASK IF 'CONSIDERED IN LAST 12 MONTHS' OR CURRENTLY RUNNING A BUSINESS

5.5 O gymharu â gweithio i rywun arall, i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno eich bod/y byddwch yn teimlo yn fwy bodlon gyda'ch bywyd gwaith pan wnewch gychwyn eich busnes eich hun?

[SELECT ONE]

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno
- c) Anghytuno
- d) Anghytuno'n gryf
- e) Ddim yn gwybod

ASK IF 'CONSIDERED IN LAST 12 MONTHS' OR CURRENTLY RUNNING A BUSINESS

5.6 O gymharu â gweithio i rywun arall, pa mor bwysig yw bod yn/fydd bod yn hunangyflogedig o gymorth ichi:

[LIST AND RECORD AS IMPORTANT, NOT IMPORTANT OR NOT RELEVANT]

- Weithio o amgylch unrhyw faterion iechyd corfforol
- Weithio o amgylch unrhyw faterion iechyd meddwl
- Dod o hyd i amser a'r hyblygrwydd i fedru gofalu am berthnasau hŷn
- Dod o hyd i amser a'r hyblygrwydd i fedru gofalu am blant
- Byw lle hoffech chi fyw (e.e. mewn lleoliad gwledig)

ASK IF 'CONSIDERED IN LAST 12 MONTHS' OR CURRENTLY RUNNING A BUSINESS

5.7 Beth yw eich cynlluniau ar gyfer eich busnes (arfaethedig) dros y 3-5 blynedd nesaf?

- I'w dyfu mor fawr â phosibl a chyflogi (rhagor o) cyflogeion
- I'w dyfu mor fawr â phosibl ond heb gyflogi cyflogeion
- I oroesi/cadw'r busnes tua'r un maint
- I leihau maint y busnes
- I werthu'r busnes
- I gychwyn busnes arall
- I gau'r busnes a symud nôl i gyflogaeth
- I gau'r busnes a gwneud rhywbeth arall

Adran 6: Adnabod

6.1 Ym mha awdurdod lleol y mae eich busnes wedi ei leoli? [If not trading ask for home local authority]

SELECT ONE

- Ynys Môn
- Blaenau Gwent
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerffili
- Caerdydd
- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Castell-nedd Port Talbot
- Casnewydd
- Sir Benfro
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe
- Torfaen
- Bro Morgannwg
- Wrecsam

6.2 Beth yw'r cod post ar gyfer cyfeiriad eich busnes? [If not trading ask for home address]

WRITE IN

6.3 A fydddech yn dweud bod eich busnes mewn ardal sy'n bennaf: [If not trading ask for where they live]

- Mewn, neu'n agos at ddinas
- Mewn, neu'n agos at dref fawr
- Mewn ardal weddol wledig
- Mewn ardal wledig anghysbell iawn

6.4 Beth yw lefel y cymhwyster uchaf sydd gennych?

SELECT ONE

- a) Dim cymwysterau
- b) Lefel Mynediad
- c) Lefel 1 (NVQ 1, OCN 1, GNVQ)
- d) Lefel 2 (TGAU A*-C, NVQ 2, OCN 2, GNVQ Canolradd, Diploma Cyntaf BTEC)
- e) Lefel 3 (Safon Uwch, Dyfarniad Cenedlaethol BTEC, NVQ 3, OCN 3, Prentisiaeth Fodern)
- f) Lefel 4 (HNC, NVQ 4)
- g) Lefel 5 neu 6 (Gradd, Gradd Anrhydedd, HND, NVQ 5)
- h) Lefel 7 (Gradd Meistr, Diploma OI-Raddedig)
- i) Arall (rhowch y manylion)
- j) Ddim yn gwybod

6.5 A yw eich gweithgareddau dyddiol arferol wedi eu cyfyngu oherwydd problemau iechyd neu anableddau sydd wedi para, neu sy'n debygol o bara, am o leiaf 12 mis? [Include problems related to old age]

- a) Ydyn, wedi eu cyfyngu yn fawr
- b) Ydyn, wedi eu cyfyngu ychydig
- c) Nac ydy
- d) Ddim eisiau dweud

6.6 Beth yw eich grŵp ethnig?

- a) Gwyn - Cymreig/Saesneg/Albanaidd/O Ogledd Iwerddon/Prydeinig
- b) Gwyn - Gwyddelig
- c) Gwyn - Sipsi neu Deithiwr o Dras Wyddelig
- d) Unrhyw Gefndir Gwyn Arall, ysgrifennwch isod
- e) Ethnigrwydd cymysg: Gwyn a Du Caribïaidd
- f) Ethnigrwydd cymysg: Gwyn a Du Affricanaidd
- g) Ethnigrwydd cymysg: Gwyn ac Asiaidd
- h) Unrhyw gefndir Cymysg arall, ysgrifennwch isod:
- i) Asiaidd, Asiaidd Prydeinig: Indiaidd
- j) Asiaidd, Asiaidd Prydeinig: Pacistanaidd
- k) Asiaidd, Asiaidd Prydeinig: Bangladesiaidd
- l) Asiaidd, Asiaidd Prydeinig: Tsieineaidd
- m) Unrhyw gefndir Asiaidd Arall, ysgrifennwch isod
- n) Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig: Affricanaidd
- o) Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig: Caribïaidd
- p) Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, ysgrifennwch isod
- q) Grŵp ethnig arall: Arabaidd
- r) Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch y manylion)
- s) Ddim am ddweud

Diolchwch yr ymatebwr am ei (h)amser Caewch yr arolwg

6.7 Cod Rhyw

- Gwryw
- Benyw

6.8 CODE Database Source

Atodiad B Canllawiau Trafod Cyfweiliadau'r Astudiaethau Achos Ansoddol

Cefndir

- Dywedwch ychydig bach wrthyf am eich sefyllfa bresennol a beth oeddech chi'n ei wneud cyn rhedeg eich busnes eich hun (ysgol, addysg bellach/uwch, gwirfoddoli, profiad gwaith, teithio, swydd gyflogedig, tangyflogaeth, cyfnodau o ddiweithdra)
- Dywedwch ychydig bach wrthyf am natur eich busnes e.e. lleoliad, safle, cynnyrch a gwasanaethau, cystadleuaeth, y marchnadoedd rydych yn eu gwasanaethu, sector y busnes, strwythur y busnes a pherchnogaeth
- Gofynnwch pwy sy'n gweithio dros y busnes (niferoedd, math o waith)
- Gofynnwch am berfformiad y busnes (gwerthu, trosiant, elw)
- Sawl awr yr wythnos ydych chi'n gweithio yn y busnes?
- Ai'r busnes yw'ch prif ffynhonnell incwm? Os na, beth yw'ch prif ffynhonnell incwm?
- Beth, os rhywbeth, ydych chi'n ei wneud yn ogystal â rhedeg eich busnes ar hyn o bryd?
- Holwch am y datblygiadau allweddol ers sefydlu'r busnes

Y siwrnai i gychwyn busnes

- Sut fydddech chi'n disgrifio eich siwrnai i gychwyn busnes?
 - Prociwch: dechrau'n araf, dechrau fel hobi, dechrau gydag un syniad ond wedi symud ymlaen i un arall, llwybr clir o'r cychwyn cyntaf
 - Pa gamau gymeroch chi? (gwaith ymchwil cynnar, cynllunio, ffeindio safle/stoc, ffeindio cwsmeriaid)
 - Pryd gwnaethoch chi ystyried y syniad am y tro cyntaf? Faint o amser dreulioch chi jyst yn meddwl am y peth?
 - Pryd ddechreuoch chi fasnachu go iawn a pha mor hir oedd y siwrnai i gyd?
 - Pa mor hir gymerodd pob cam neu gyfnod?
 - Sut, os o gwbl, y gallai'r siwrnai fod wedi bod yn gynt?
- Pa mor hawdd neu anodd oedd y siwrnai?
 - Faint o straen achosodd y siwrnai i chi? Pam ydych chi'n dweud hynny?
 - Beth oedd yr agwedd fwyaf cyffrous ar y siwrnai?
 - Beth oedd eich prif bryderon?
 - Pa agweddau ar gychwyn busnes oedd y frwydr fwyaf i chi?
 - Pa mor dda oeddech chi wedi eich paratoi i gychwyn busnes?
 - Wrth edrych nôl, pa wersi ddysgoch chi?
- Sut oeddech chi'n disgwyl ariannu cychwyn y busnes? (cynilion, gorddrafft, benthyciadau, rhieni, grant, cyllido torfol)
 - A oedd unrhyw ddisgwyliadau gennych am fod yn gallu cael grant cychwyn busnes?
 - Yn y pen-draw, sut aethoch chi ati i ariannu cychwyn eich busnes?
 - Pa gymorth ariannol cawsoch chi, ac o ble?
 - I ba raddau oedd y cymorth ariannol a oedd ar gael yn diwallu eich anghenion o ran cyllid?
 - [Os yw'n berthnasol] Pa oblygiadau cafodd methu â diogelu'r cyllid yr oedd ei angen arnoch ar eich busnes?
- Pa gymorth (heblaw cymorth ariannol) cawsoch chi yn ystod y broses o gychwyn busnes? (Prociwch: cymorth gan entrepreneuriaid eraill, rhwydweithiau busnes, mentor, cynghorydd, hyfforddiant, rhieni ac unrhyw gydweithredu arall ac ati)
 - Beth oedd eich barn am y cymorth yma?
 - Beth oedd yn dda am y cymorth a gawsoch?
 - A wnaeth y cymorth ddiwallu'ch anghenion? Os naddo, pam lai?
 - Beth allai fod wedi cael ei wella o ran y cymorth?
 - Pa gymorth, os rhywbeth, y bydddech wedi ei werthfawrogi er mwyn cychwyn y busnes o fewn cyfnod byrrach?

- Sut byddech chi'n dewis cael unrhyw gymorth busnes yn y dyfodol? (e.e. f2f, ar y we, e-bost ac ati)

Sbardunau

- Wrth feddwl nôl, pam oeddech chi am redeg eich busnes eich hun?
 - Beth oedd yn apelio atoch am redeg busnes?
 - Gofynnwch pam eu bod wedi dewis yr atebion a roesant i C4.1 o'r arolwg
 - Pam oedd e'n apelio'n fwy na swydd gyflogedig?
 - Prociwch i ganfod a wnaethon nhw gychwyn o reidrwydd neu o gyfle
 - Prociwch ai pwrpas oedd eu sbardun ynteu elw
 - Prociwch o ran i ba raddau yr oedden nhw'n chwilio am brofiadau cynhyrchiol
 - Pwy neu beth sydd wedi eich ysbrydoli yn eich busnes? Sut maen nhw wedi eich ysbrydoli?
- A fodlonwyd eich disgwyliadau o redeg eich busnes eich hun? Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Faint o ddylanwad gafodd unrhyw brofiad perthnasol oedd gennych ar eich penderfyniad i gychwyn busnes?
 - Pa brofiad yn benodol oedd o ddefnydd i chi?
 - Pa brofiad fydddech chi wedi ei ffeindio'n ddefnyddiol?
- Pa ddylanwad, os o gwbl, gafodd eich addysg eich hun ar eich dymuniad i gychwyn a rhedeg eich busnes eich hun? Ym mha ffordd ddylanwadodd hyn ar eich penderfyniad?
 - Pa bethau eraill fyddai wedi dylanwadu ar eich cymhelliant i gychwyn busnes? (rhieni, cyfoedion, partner)

Agweddau a Dyheadau

- Beth ydych chi'n ei fwynhau am redeg eich busnes eich hun?
 - Sut, ac ym mha ffordd, y mae'n well na gweithio dros rywun arall?
 - Beth, os rhywbeth, nad ydych chi'n ei fwynhau am redeg eich busnes eich hun?
- Beth yw'r manteision a'r anfanteision i chi o redeg eich busnes eich hun?
- Yn ein harolwg, fe ddisgrifioch chi eich hun fel [cyfeiriwch at yr atebion i C2.2]. Pam ddewisoch chi'r disgrifiadau hyn dros y lleill?
- Dywedwch ychydig bach wrthyf am lefel eich ymrwymiad i'ch busnes:
 - Faint o amser yr wythnos yr hoffech chi ei ymrwymo i'ch busnes?
 - Faint o bwys ydych chi'n ei roi i gydbwysedd rhesymol rhwng bywyd a gwaith?
 - Beth yw eich rhagolygon ariannol a'ch disgwyliadau ar gyfer y busnes?
- Ble ydych chi'n eich gweld eich hun ymhen pum mlynedd?
 - A fyddwch chi'n rhedeg eich busnes ynteu'n gwneud rhywbeth arall (swydd gyflogedig, rhedeg mwy nag un busnes)?
- Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer eich busnes dros yr ychydig flynyddoedd nesaf?
 - Holwch am gydgyfnerthu'r busnes, cynnyrch/gwasanaethau newydd, ehangu, twf mewn perfformiad, goroesi neu gostyngiadau ac unrhyw gynlluniau i werthu'r busnes?
- Yn olaf, pe baech chi'n cael eich amser eto, pa gyngor fydddech chi'n ei roi i chi'ch hun?
 - Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i bobl eraill sy'n ystyried cychwyn busnes?
- Oes unrhyw sylwadau eraill gennych?

Atodiad C Datganiad o'r Dull

Cwmpas y gwaith ymchwil a sampl

Cwmpas y gwaith ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon oedd unigolion o dan 30 oed yng Nghymru a oedd wedi cychwyn busnes yn ystod y 3 blynedd diwethaf, neu a oedd wedi ystyried cychwyn busnes yn ystod y 12 mis diwethaf.

Daeth ffrâm y sampl ar gyfer yr astudiaeth hon o nifer o fannau, gan gynnwys ffynonellau Llywodraeth Cymru ac ffynonellau nad oeddent yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru. Roedd y data gan Lywodraeth Cymru'n ymwneud â gwasanaethau cymorth cyn cychwyn busnes ar gyfer pobl ifanc trwy Syniadau Mawr Cymru. Mae'r data yma'n cynnwys cleientiaid a gyfeiriwyd o amrywiaeth o ffynonellau, ac o fyd Addysg Bellach ac Uwch yn benodol. Mae rhestr gyflawn isod ac mae'n cynnwys amrywiaeth o gronfeydd data Llywodraeth Cymru, darparwyr cronfeydd data masnachol fel Experian Market Location a ffynonellau eraill fel cyfranogwyr cymwys a wirfoddolodd i gael cyfweiliad trwy arolwg cofrestru ar-lein a ddsbarthwyd trwy sefydliadau priodol fel Prifysgolion, Colegau Addysg Bellach ac asiantau'r trydydd sector â diddordeb mewn menter, neu rai a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc. Yn achos rhai o'r cronfeydd data, roedd yr holl gysylltiadau'n gymwys ar gyfer yr arolwg. Yn achos eraill fodd bynnag, ac yn benodol Experian a Market Location, nid oedd digon o wybodaeth ar gael i bennu cymhwyster llawn (e.e. hwyrach bod oedran y busnes neu oedran y perchennog ar gael, ond nid y ddau). Am hynny, gofynnwyd cwestiynau cymhwyso ar ddechrau'r cyfweiliad i ganfod hyn. Gofynnwyd y rhain i'r holl ymatebwyr (at ddibenion dilysu) hyd yn oed os oedd y wybodaeth ar y gronfa ddata'n awgrymu cymhwyster.

- Bwrsariaeth Graddedigion LIC
- Cychwyn Busnes LIC
- Twf Swyddi Cymru
- Gwersyll Hybu Syniadau Mawr Cymru LIC
- Ymgynghorol Syniadau Mawr Cymru LIC
- Busnes Cymru LIC
- Cronfa Ddata Experian
- Cronfa Ddata Busnes Market Location
- Arolwg Cofrestru Ob3
- Omnibws Beaufort Mehefin 2017⁸

⁸ Gosodwyd cwestiynau yn rhifyn Mehefin 2017 er mwyn dod o hyd i ymatebwyr cymwys

Ar ôl dileu unrhyw achosion ddyblygu rhwng y ffynonellau data, roedd 1,746 o gofnodion ar gael i gysylltu â nhw. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain, sef 1,336, gan ddarparwyr data masnachol (Experian a Market Location) ac fel a nodwyd uchod, roedd y rhain yn cynnwys llawer o gofnodion lle byddai oedran y busnes neu oedran perchennog y busnes yn eu hanghymwysu ar gyfer yr arolwg.

O'r cwmbras cyfyngedig yma, targedwyd cyfanswm o 150 o gyfweiliadau. Gosodwyd dau fesur rheoli cwotas ar y sampl o gyfweiliadau, sef:

- Sicrhau bod o leiaf 50% o'r gyfweiliadau o ffynonellau heblaw Llywodraeth Cymru
- Sicrhau rhaniad o 100 o unigolion a oedd wedi cychwyn busnes a 50 a oedd yn ystyried cychwyn busnes.

Fel y mae'r tabl isod yn ei ddangos, bodlonwyd y targed o gynnal o leiaf 50 y cant o gyfweiliadau â chysylltiadau nad oeddent yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd y targed o gyflawni 50 o gyfweiliadau ag 'ystyrwyr' yn fwy problemataidd, a hynny oherwydd argaeledd cyfyngedig y grŵp yma o fewn y ffrâm sampl - er enghraifft, roedd yr holl gysylltiadau o'r cronfeydd data masnachol (a oedd i gyfrif am dri chwarter o'r sampl) eisoes wedi cychwyn eu busnesau.

	Maint y sampl	%
Ffynhonnell y gronfa ddata		
Bwrsariaeth Graddedigion LIC	1	1%
Cychwyn Busnes LIC	2	1%
Twf Swyddi Cymru LIC	4	3%
Gwersyll Hybu a Her LIC	24	15%
Syniadau Mawr Cymru/Busnes Cymru LIC	43	28%
CYFANSWM LLYWODRAETH CYMRU	74	48%
Cronfa Ddata Experian	36	24%
Cronfa Ddata Busnes Market Location	39	25%
Arolwg Cofrestru Ob3	4	3%
CYFANSWM NA CHYRCHWYD TRWY LLYWODRAETH CYMRU	79	52%
Wedi Cychwyn yn ystod y 3 blynedd diwethaf neu wedi Ystyried yn ystod y 12 mis diwethaf		
Cychwynwyr	135	88%
Ystyrwyr	18	12%
CYFANSWM	153	100%

Casglu Data

Cyflawnwyd yr holl gyfweiliadau trwy CATI (Cyfweiliadau Ffôn â Chymorth Cyfrifiadur) o brif swyddfa Beaufort yng Nghaerdydd. Datblygwyd yr holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith ymchwil gan OB3 Research, Beaufort Research a Llywodraeth Cymru, ac mae copi ohono yn Atodiad A. Parodd y cyfweiliadau rhyw 15 munud ar gyfartaledd ac fe'u cyflawnwyd rhwng 2 Mehefin a 30 Mehefin 2017. Cafodd yr holl ymatebwyr y dewis i gymryd rhan naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Dadansoddiad

Yn ogystal â dadansoddiad safonol o'r data, cafodd canfyddiadau'r arolwg eu segmentu hefyd. Roedd hyn ar ffurf dadansoddiad fesul ffactor a fesul clwstwr.

Techneg ystadegol yw dadansoddi fesul clwstwr i grwpio'r ymatebwyr sy'n destun ymchwil trwy arolwg nid yn ôl un maen prawf yn unig, ond yn ôl nifer fawr o nodweddion - yn yr achos hwn, patrwm eu hymatebion i gyfres o gwestiynau am sbardunau ac agweddau at redeg busnes oedd hyn. Dyma'r cwestiynau a ddefnyddiwyd at ddibenion segmentu:

4.1 Pam oeddech chi eisiau cychwyn busnes eich hunan? [SELECT ONE]

- a) I fod yn 'fos' arnaf fi fy hun
- b) I gael mwy o ryddid
- c) I gael gwell balans rhwng bywyd a gwaith
- d) I ennill mwy o arian fel prif swydd
- e) I fod yn greadigol ac i wneud yn fawr o syniad da
- f) I osgoi fod yn ddi-waith
- g) I adael lle gweithio gwael
- h) I wneud rhywbeth diddorol yn fy amser rhydd
- i) I ddilyn ôl traed fy nheulu
- j) I ychwanegu at gyflog dwi'n ei dderbyn o swydd arall
- k) I fynd i'r afael a phroblemau cymdeithasol/cefnogi fy nghymuned
- l) I ennill statws cymdeithasol
- m) I weithio o adre/yn agosach at adre
- n) I sicrhau mwy o hyblygrwydd i fedru edrych ar ôl teulu/plant
- o) Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

4.2 A ph'run o'r datganiadau isod fydddech yn dweud sy'n disgrifio orau eich penderfyniad i gychwyn busnes/i fod eisiau cychwyn busnes? [SELECT ONE]

- a) Rwyf erioed wedi gwybod mai dyna oeddwn eisiau ei wneud
- b) Dyna sy'n arferol ar gyfer fy mhroffesiwn/gyrfa
- c) Yr oeddwn eisiau gwneud gwahaniaeth
- d) Gwelais gyfle neu fe roddwyd cyfle imi
- e) Rwyf yn mwynhau gweithio ar hobi / eisiau gweithio yn rhan amser

- f) Cefais fy ysbrydoli gan deulu neu ddylanwadau eraill megis addysg fenter

4.4 I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol am y rhesymau ichi gychwyn busnes:

[Score as Cytuno'n Llwyf, Cytuno'n Rhannol, Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno, Anghytuno'n Rhannol, Anghytuno'n Llwyf, Ddim yn Gwybod]

- Roedd/mae diffyg swyddi â chyflogau da ar gael
- Roeddwn/rydw i'n ei chael yn anodd cael swydd
- Gwelais gyfle busnes da
- Roeddwn/rydw i am fod yn fos arnaf fi fy hun
- Mae rhedeg busnes wedi bod yn uchelgais imi erioed
- Rwyf wedi ystyried fy hun yn entrepreneur erioed
- Mae bod yn hunangyflogedig yn gyffredin yn y sector dwi'n gweithredu ynddi

5.2 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich rhagolygon ariannol ar gyfer eich busnes?

SELECT ONE

- Fy nod yw sicrhau cymaint o arian â phosibl o'r busnes
- Fy nod yw gwneud bywoliaeth gyfforddus o'r busnes
- Mae gwneud cyflog yn bwysig imi ond mae pethau eraill yr un mor bwysig
- Fe fyddwn yn ymdopi'n ariannol heb yr incwm o'r busnes
- Credaf y bydd hi'n anodd gwneud bywoliaeth o'r busnes
- Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

5.3 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol o safbwynt rhedeg eich busnes?

{For each option - cytuno'n gryf, cytûn, ddim yn cytuno nad yn anghytuno, anghytuno, anghytuno'n gryf}

- Teimlaf yn aml fy mod yn gorweithio ac o dan bwysau
- Teimlaf yn unig yn aml
- Mae gennyf gydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd
- Mae rhedeg y busnes yn eithaf di-straen
- Mae rhedeg y busnes yn fy ngalluogi i ddefnyddio fy nhalent a chreadigrwydd
- Mae rhedeg y busnes yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o foddhad imi
- Mae rhedeg y busnes yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o bwrpas imi
- Mae rhedeg y busnes yn gwneud imi deimlo fy mod yn cyfrannu rhywbeth yn ôl i'r gymuned

Mae'r dadansoddiad fesul 'ffactor' yn digwydd cyn y dadansoddiad clwstwr a'i rôl yw symleiddio nifer yr amrywiolion sy'n cael eu bwydo i'r dadansoddiad fesul clwstwr, trwy archwilio sut y mae'r amrywiolion yn gysylltiedig â'i gilydd a chwilio am gydberthnasau rhyngddynt.

Mae clystyrau o ymatebwyr yn codi wrth i aelodau o'r un segment rannu agweddau tebyg, ond maent yn cael eu gwahaniaethu i'r eithaf wrth y segmentau eraill hefyd. Pennir nifer y clystyrau neu

segmentau yn rhan o'r dadansoddiad, ond mewn unrhyw segmentiad, mae rhwng pedwar a naw o ran nifer fel rheol.

Mae hyn yn arwain at segmentu ar sail grwpiau seicograffig: sef grwpiau a ddiffinnir gan agweddau, sbardunau a gwerthoedd yn hytrach na demograffeg neu ymddygiad syml.

Yn achos yr arolwg hwn, i gychwyn canfuwyd pedwar clwstwr a chawsant eu henwi – y rhai 'Ar dân Amdani' (27% o'r sampl), Arloeswyr Cymdeithasol (10%), Mentrwyr Lleol (7%) ac un grŵp pellach, y mwyaf o bell ffordd (56%) a nodweddiwyd gan y ffaith eu bod yn cael eu denu at y rhyddid y gall fod yn fos arnoch chi eich hun yn ei gynnig, a bod am wneud bywoliaeth gyffyrddus. Rhannwyd y grŵp olaf yma'n ddau grŵp pellach. Galwyd y cyntaf o'r rhain yn Anturwyr Chwilfrydig (17%) ac i fod yn gymwys ar gyfer y grŵp yma, roedd angen i'r ymatebwyr ddiwallu o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Disgrifio faint o amser y maent yn ei ymrwymo/maent yn bwriadu ei ymrwymo fel 'rhywbeth i'w wneud yn eu hamser hamdden' neu fel 'rhywbeth i'w gyflawni mewn wythnos waith fer' yn C5.1
- 'Gwneud arian o hobi' yw'r unig ddisgrifiad a roddwyd o'r hyn y maent yn ei wneud yn C2.2
- Wedi cychwyn busnes, ond erioed wedi masnachu yn C2.3a
- Yn 'ystyrwyr' ac yn ateb 'wedi ystyried y peth' a/neu 'wedi gwneud peth ymchwil a chynllunio cychwynnol' yn unig i C2.1

Labelwyd y gweddill nad oeddent yn bodloni'r meini prawf uchod (ac a oedd yn tueddu i fod yn fusnesau mewn sefydledig) yn 'Chwilotwyr Rhyddid' (39%).